



RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

83/2016

DYDDIAD CYHOEDDI:

20/12/2016

Gwerthusiad o Raglen Esgyn

Cyfnod 2 – Astudiaeth Weithredu: Ffurf Strwythurol ac
Ymarfer Gweithredol Esgyn

Gwerthusiad o Raglen Esgyn – Cyfnod 2: Ffurf Strwythurol ac Ymarfer Gweithredol Esgyn

Oliver Allies

Jessica Irving



Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid barn Llywodraeth Cymru o anghenraid.

I gael gwybodaeth bellach, cysylltwch â:

Semele Mylona

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: Semele.mylona@wales.gsi.gov.uk

Tabl cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	5
2.	Rhaglen Esgyn.....	8
3.	Dull Methodolegol	12
4.	Canfyddiadau	19
5.	Archwilio Safbwyntiau Cyfranogwyr ar Ymgsylltu, Gweithgareddau a Theithiau...	44
6.	Casgliadau	53
	Adran Gyfeirnodau.....	57
	Atodiad 1: Rhaglen Esgyn – Theori Newid	58
	Atodiad 2: Offer Ymchwil	59

Rhestr o dablau

Tabl 3.1: Tonnau Arolwg y Cyfranogwyr	15
Tabl 4.1: Strwythur Staffio Rhaglen Esgyn yn ôl Ardal Gyflenwi.....	19
Tabl 4.2: Nifer y Cyfleoedd a Frocerwyd yn Genedlaethol a Gynigwyd ac y Manteisiwyd Arnynt yn ôl Ardal Gyflenwi Ebrill 2015 - Mawrth 2016.....	31
Tabl 5.1: Dyheadau ymatebwyr o gyfranogi gydag Esgyn (Cwestiwn 9, Ymatebion Lluosog wedi’u Codio).....	45
Tabl 5.2: Disgrifiad ymatebwyr o’u sefyllfa gyflogaeth bresennol.....	47

Rhestr o ffigurau

Ffigur 2.1: Cyfradd Ganrannol o Aelwydydd Heb Waith - 2015	10
Ffigur 4.1: Model Cyflenwi a Gynlluniwyd ar gyfer Rhaglen Esgyn	18
Ffigur 4.2: Cyfran Cyfranogwyr Esgyn (Ebrill 2014 - Mawrth 2016) a fu’n ddi-waith am bum mlynedd neu fwy neu sydd heb weithio erioed	24
Ffigur 5.1: Sgoriau’r ymatebwyr ar eu canfyddiad o bellter o’r farchnad lafur cyn ymwneud ag Esgyn (Cwestiwn 5).....	46
Ffigur 5.2: Lefelau hyder a adroddwyd o ran canfod a chadw swydd. Cymharu ymatebion cyn a hyd at chwe mis ar ôl ymwneud â Rhaglen Esgyn.....	51

1. Cyflwyniad

Cefndir

- 1.1 Ym mis Mawrth 2015, cafodd Wavehill ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad o Raglen Esgyn. Dyluniwyd y Rhaglen i ymateb i Gynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi 2013 Llywodraeth Cymru ac, yn fwy penodol, i'r ymrwymiad i ddarparu 5,000 o gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth i bobl sydd mewn aelwydydd heb waith¹ erbyn diwedd 2017. Rhagwelir y bydd y cymorth yn helpu cyfranogwyr i ganfod swyddi neu gynyddu'n sylweddol eu rhagolygon o ganfod swyddi.
- 1.2 Mae Rhaglen Esgyn yn gweithredu mewn naw o ardaloedd cyflenwi yn seiliedig ar 12 Clwstr Cymunedau yn Gyntaf² ledled Cymru. Tra bo'r rhan fwyaf o ardaloedd cyflenwi Rhaglen Esgyn yn cwmpasu Clwstr unigol, mae tair ardal gyflenwi — Blaenau Gwent, Caerffili a Sir y Fflint³ — yn cwmpasu dau Glwstr yr un; felly mae cyfanswm o 12 o Glystyrau wedi'u cynnwys yn Rhaglen Esgyn.
- 1.3 Ym mhob ardal gyflenwi, recriwtiwyd timau bach o Fentoriaid / brocwyr swyddi (y cyfeiriwyd atynt wedyn fel Mentoriaid, ac fel arfer recriwtiwyd dau i bob ardal gyflenwi) i ymgysylltu ag oedolion oedran gweithio sydd mewn aelwydydd heb waith yn yr tymor hir (aelwydydd lle y bu pob aelod heb waith am o leiaf chwe mis). Mae cyfranogwyr cymwys yn cychwyn yn y Rhaglen yn wirfoddol, ac mae'r Mentoriaid yn asesu dyheadau'r cyfranogwyr o ran gwaith, hyfforddiant neu addysg a'u helpu i ddatblygu cynlluniau (gweithredu) datblygu personol i strwythuro eu camau tuag at waith. Caiff cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth eu nodi wedyn.
- 1.4 Mae'r Mentoriaid yn nodi'r cyfleoedd hyfforddiant a gwaith ar lefel leol. Ar lefel genedlaethol, gwahoddwyd adrannau Llywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus ac eraill i ehangu'r gronfa swyddi a'r cyfleoedd hyfforddiant a allai fod yn addas yn lleol ar gyfer pobl sydd heb waith yn y tymor hir; mae'r rhain yn cynnwys Byrddau Iechyd Lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, a chyfleoedd oddi mewn i Raglenni Addysg a Sgiliau presennol.

¹ Mae aelwyd heb waith yn golygu aelwyd lle nad oes neb sy'n 16 oed neu'n hŷn mewn swydd. Gallai'r aelodau hyn fod yn ddi-waith neu'n anweithgar. Gallai aelodau anweithgar fod yn rhai sydd heb fod ar gael i weithio yn sgil ymrwymadau teuluol, ymddeoliad neu astudio, er enghraifft, neu efallai nad ydynt ar gael i weithio yn sgil salwch neu anabledd (ONS 2014)

² Mae cyfanswm o 52 o Glystyrau yn cwmpasu'r cymunedau mwyaf difreintiedig (10 y cant) yng Nghymru.

³ Ymunodd Sir y Fflint ac un o'r ardaloedd yng Nghaerffili ag Esgyn yn ddiweddarach.

- 1.5 Daeth ardal gyflenwi Esgyn yn weithredol ym mis Ionawr 2014 a dechreuodd yr olaf o'r naw ardal ar y gwaith yn haf y flwyddyn honno. Bu i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi blaenorol gytuno ar gyllideb y Rhaglen ar gyfer 2016-17 a 2017-18 i alluogi'r Rhaglen i barhau hyd at fis Mawrth 2018.

Cwmpas a Nodau'r Gwerthusiad

- 1.6 Mae i'r gwerthusiad ddau nod troswaol:

- Asesu sut cafodd y Rhaglen ei sefydlu ym mhob un o'r naw ardal gyflenwi a sut mae'n cael ei gweithredu;
- Darparu arwydd o'i heffeithiolrwydd o ran helpu cyfranogwyr i ganfod gwaith neu ymgymryd â gweithgareddau a fydd yn hwb sylweddol i'w rhagolygon gwaith.

- 1.7 Caiff y gwerthusiad ei gyflenwi dros dri chyfnod, ac mae i bob cyfnod bwyslais penodol ar elfennau allweddol o'r Rhaglen. Yr adroddiad presennol yw penllanw'r gwaith ymchwil a wnaed fel rhan o Gyfnod 2.

Cyfnod 1 – Rhesymeg Model Esgyn

- 1.8 Canolbwyntiai cyfnod cychwynnol y gwerthusiad ar ddeall y rhesymeg gynhenid sy'n sail i Esgyn, hynny yw profi i ba raddau mae Esgyn yn seiliedig ar 'theori newid' gredadwy ac i ba raddau mae'r Rhaglen yn cydymffurfio â'r model hwn yn yr ardaloedd cyflenwi.

Cyfnod 2 – Ffurf Strwythurol ac Ymarfer Gweithredol Esgyn

- 1.9 Yng Nghyfnod 2 yr astudiaeth, gwnaed dadansoddiad manwl o sut y sefydlwyd y Rhaglen ym mhob ardal a'r prosesau a ddefnyddir wrth ei gweithredu. Roedd y broses hon yn cynnwys archwilio pa mor ddigonol yw'r systemau monitro ac adrodd ym mhob ardal gyflenwi.

Cyfnod 3 – Effeithiolrwydd ac Effeithlonrwydd Esgyn

- 1.10 Bydd Cyfnod 3 y gwerthusiad yn adolygu effeithiolrwydd y Rhaglen o ran cyflawni ei hamcanion arfaethedig. Bydd hyn yn cynnwys dadansoddi'r costau a'r buddion a ddaw i ran y cyfranogwyr, yn ogystal ag effeithlonrwydd gweithredol y Rhaglen a ph'un a oes lle i wella dyluniad y Rhaglen.

Strwythur yr Adroddiad Hwn

1.11 Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi'i strwythuro fel hyn:

- Mae Pennod 2 yn rhoi trosolwg o Raglen Esgyn ac yn myfyrio ar sylfaen resymegol y Rhaglen
- Mae Pennod 3 yn disgrifio dull methodolegol y gwerthusiad
- Mae Pennod 4 yn archwilio model Esgyn mewn mwy o ddyfnder (na'r hyn a geir ym Mhennod 2), gan adolygu cynllun busnes Rhaglen Esgyn cyn cymharu manylion y cynllun busnes a chanfyddiadau'r gwaith ymchwil
- Mae Pennod 5 yn adrodd ar ganfyddiadau'r gwaith ymchwil cynradd gyda chyfranogwyr Esgyn
- Mae Pennod 6 yn rhoi crynodeb o'r canfyddiadau a gyflwynir yn y penodau blaenorol.

2. Rhaglen Esgyn

Cyflwyniad

- 2.1 Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o Raglen Esgyn ac yn edrych eto ar y sail resymegol a oedd yn gyfiawnhad i'w gweithredu.

Rhaglen Esgyn

- 2.2 Mae'r Rhaglen yn weithredol mewn naw o ardaloedd cyflenwi ledled Cymru ar hyn o bryd, yn seiliedig ar 12 o Glystyrau Cymunedau yn Gyntaf, ac yn sylfaen iddi mae cyfres o egwyddorion a chryfderau allweddol:

- Atebion yn seiliedig yn y gymuned
- Defnyddio gwybodaeth gymunedol
- Cymorth yn seiliedig yn y gymuned
- Gweithwyr allgymorth cymorth dwys
- Cynlluniau gweithredu ar gyflogaeth.⁴

Adnoddau'r Rhaglen

- 2.3 Mae Rhaglen Esgyn yn gweithredu gydag adnoddau cymharol gyfyngedig, a hithau wedi derbyn £2.5m o gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyfnod cychwynnol y Rhaglen yn 2013/14-2015/16. Swm y cyllid a gymeradwywyd ar gyfer 2016-17 a 2017-18 yw tua £1.1 miliwn y flwyddyn (gyda'r ail o'r rhain yn ddibynnol ar gymeradwyo cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18). Roedd defnyddio Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf fel cyfrwng cyflenwi yn seiliedig ar y dybiaeth bod seilwaith y Clystyrau yn cynnig rhyw radd o effeithlonrwydd, gan alluogi i'r gwasanaeth gael ei gyflenwi gydag adnoddau cyfyngedig. Ond mae llawer o effeithlonrwydd y model hwn yn ddibynnol ar fod Rhaglen Esgyn yn gysylltiedig â ffurfiau eraill o gymorth, neu'n manteisio arnynt.

Nodi Ardaloedd Cyflenwi

⁴ Llywodraeth Cymru (2013), *Tackling Workless Households Programme* (heb ei gyhoeddi).

- 2.4 Mae cyfran y boblogaeth o oedolion sy'n derbyn budd-daliadau yn seiliedig ar incwm yn uwch mewn Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf (30 y cant) na'r cyfartaledd yng Nghymru (12 y cant).⁵ Gan ddefnyddio budd-daliadau yn ffon fesur ar gyfer y rhai sydd heb waith, mae hyn yn golygu bod crynodiadau uwch o aelwydydd sydd heb waith mewn Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf.⁶
- 2.5 Nodwyd Clystyrau arfaethedig gan Lywodraeth Cymru, gan eu gwahodd i fod yn rhan o'r Rhaglen. Roedd y meini prawf dethol terfynol yn cynnwys (i) i ba raddau'r oedd gan y Clystyrau hanes llwyddiannus o gyflenwi Rhaglen bresennol Cymunedau yn Gyntaf, a (ii) yr angen i dreialu'r model mewn amrywiaeth o leoliadau o dan y dybiaeth y byddai effeithiolrwydd y Rhaglen yn cael ei ddylanwadu gan ddaearyddiaeth, dwysedau poblogaeth a chyflogaeth, a seilwaith.
- 2.6 Roedd y gyllideb ar gyfer pob ardal gyflenwi dros gyfnod cychwynnol y Rhaglen (2013/14-2015/16) yn amrywio o ryw £190,000 i £390,000, gan adlewyrchu lefel y cyllid y gofynnwyd amdani ac y darparwyd tystiolaeth ar ei chyfer gan bob Corff Cyflenwi Arweiniol. Mae'r cyllid a'r adnoddau ehangach (yn ymwneud ag arian a phersonél/ymyriadau) yn cynnig hyblygrwydd sylweddol o ran natur y cymorth sydd ar gael i'r cyfranogwyr i'w helpu i oresgyn rhwystrau i gael swydd. Mae'r dull hwn yn tybio y bydd yr hyblygrwydd hwn yn galluogi gwahanol gyfranogwyr mewn sefyllfaoedd amrywiol i ymateb yn gadarnhaol ac ymwneud yn weithgar ag Esgyn.
- 2.7 Roedd y cyllid hwn yn cynnwys dyrannu Cronfa Rwystrau leol. Mae'r Gronfa Rwystrau yn adnodd hyblyg i Fentoriaid i'w cynorthwyo (lle nad oes adnodd arall ar gael) i oresgyn unrhyw rwystrau sylweddol y mae unigolyn yn eu hwynebu wrth gael gwaith neu symud tuag at waith. Dyrannwyd cyfran o'u cyllid i bob ardal gyflenwi ar ffurf Cronfa Rwystrau; fel arfer, roedd y cyfartaledd rhwng £20,000 ac £30,000 y flwyddyn fesul ardal gyflenwi.
- 2.8 Mae pob ardal gyflenwi a nodwyd wedi penodi o leiaf ddau aelod o staff⁷ (Brocer/Mentor ac Uwch Frocer/Mentor) i gyflenwi Rhaglen Esgyn. Mae'r cwota staffio ar y cyfan yn gyfwerth â'r adnoddau ariannol sydd ar gael ac yn seiliedig ar y dybiaeth bod y lefel hon o adnoddau staffio yn ddigonol i gyflenwi Rhaglen Esgyn, er nad yw hynny heb risg o ddod i ben pe na byddai aelodau staff ar gael.

⁵ StatsCymru, *Dangosyddion Allweddol yn ôl Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf*, yn deillio o Fynegrif Amddifadedd Lluosog Cymru (2012), <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Communities-First/KeyIndicators-by-CommunitiesFirstCluster>

⁶ Llywodraeth Cymru (2013), *Employment related benefits as a proxy for worklessness* (heb ei gyhoeddi).

⁷ Recriwtiwyd trydydd brocer/mentor ym Mlaenau Gwent, Caerffili a Chaerdydd.

Rheoli a Llywodraethu'r Rhaglen

2.9 Caiff y gwaith o gyflenwi'r Rhaglen ei reoli gan ddau aelod o staff Llywodraeth Cymru, gyda chymorth gweinyddol ychwanegol i gychwyn. Sefydlwyd bwrdd y Rhaglen,⁸ sy'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn, i ddarparu gwybodaeth, cyngor a sicrwydd i'r tîm yn y meysydd canlynol:

- materion a risgiau strategol a thrawsbynciol sy'n effeithio ar y Rhaglen
- effeithiolrwydd y cyfathrebu
- i ba raddau mae'r trefniadau llywodraethu yn ddigonol a chywir
- cyflenwi'r canlyniadau a'r buddion
- datrys materion strategol a gweithredol o safbwynt strategol.

Creu Cyfleoedd

2.10 Mae creu cyfleoedd ar gyfer Esgyn yn dibynnu ar i gyflogwyr cenedlaethol (wedi'u harwain neu'u hannog gan Lywodraeth Cymru), cyflogwyr lleol a darparwyr hyfforddiant sefydlu cyfleoedd sy'n hygyrch ac yn addas i'r garfan darged. Dylai cyfranogi yn y cyfleoedd hyn hwyluso i gyfranogwyr y Rhaglen 'esgyn' tuag at y farchnad lafur ac i mewn iddi. Mae'r dull hwn yn tybio bod gan gyflogwyr a darparwyr hyfforddiant sy'n hygyrch ac yn addas i'r garfan darged hon; y mae hefyd yn tybio parodrwydd ymysg cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant i gefnogi'r Rhaglen.

Sail Resymegol i'r Ymyrraeth

- 2.11 Mae trechu tlodi wedi'i osod fel un o flaenoriaethau uchaf Llywodraeth Cymru. Yn 2012, roedd mwy nag un ym mhob pump (21.5 y cant) o'r aelwydydd yng Nghymru yn cynnwys rhywun a oedd heb waith (o gymharu â 18.1 y cant ar draws y Deyrnas Unedig). Roedd hyn yn golygu mwy na 200,000 o aelwydydd ledled Cymru.⁹
- 2.12 Newid mewn statws cyflogaeth neu enillion yw'r prif achos o symud i mewn i dlodi neu allan o dlodi¹⁰ ac ymatebodd Llywodraeth Cymru i hyn gydag ymyriadau polisi gan gynnwys Rhaglen Esgyn.

⁸ Bwrdd Gweithredu Esgyn – Cylch Gorchwyl

⁹ Llywodraeth Cymru, *Ystadegau'r Farchnad Lafur ar gyfer Aelwydydd, 2012* – Bwletin Ystadegol, 4 Medi 2013

¹⁰ Pantazis, C. et al. (2006) *Poverty and Social Exclusion in Britain: The Millennium Survey*

- 2.13 Sefydlwyd Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf (ac yn benodol, Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf) yn yr ardaloedd hynny a nodwyd (yn y Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru) eu bod ymhlith y 10 y cant o ardaloedd o amddifadedd mwyaf yng Nghymru. Mae hyn yn darparu system seilwaith i gyflenwi ymyriadau o'r natur hon yn effeithiol.
- 2.14 Ystyriwyd felly bod cyflenwi Rhaglen gyflogadwyedd fel Esgyn yn 12 o'r Clystyrau hyn yn cynnig cyfrwng priodol i gyflenwi gwasanaethau i fynd i'r afael ag amddifadedd. Ar sail hyn, y gred oedd bod crynodiad uwch o aelwydydd sydd heb waith yn bodoli yn y cymunedau hyn. Caiff cryfder y dybiaeth hon ei hategu gan y ffaith bod y Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru yn cynnwys amddifadedd incwm a chyflogaeth ymysg yr wyth mesur sy'n sylfaen i'r Mynegrif.
- 2.15 Roedd y dystiolaeth a oedd ar gael ar lefel awdurdod lleol adeg cychwyn ar Esgyn yn dangos bod cyfraddau'r rhai sydd heb waith wedi'u dosbarthu'n anwastad, gan nodi, yn ôl data 2012, bod bron i un ym mhob tri o'r aelwydydd ym Mlaenau Gwent (lle mae 23 y cant o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is¹¹ ymysg y 10 y cant o'r rhai o amddifadedd mwyaf) yn rhai heb waith o gymharu â llai nag un ym mhob saith o'r aelwydydd yn Sir Fynwy (lle nad oes unrhyw ardal yn yr awdurdod ymysg y 10 y cant o rai o amddifadedd mwyaf). Ar lefel leol, amcangyfrifwyd bod bron i ddau draean o'r aelwydydd sydd ag oedolion o oedran gweithio yn rhai heb waith mewn rhai cymdogaethau oddi mewn i ardaloedd Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf.¹²
- 2.16 Mae Esgyn yn targedu aelodau aelwydydd a fu heb waith am fwy na chwe mis am ei fod yn debygol y bydd cyfnodau hwy o fod heb waith yn cynyddu'r siawns o brofi tlodi ac amddifadedd dwys a pharhaus, iechyd a llesiant gwael, a'r arfer o drosglwyddo risgiau ac anfanteision penodol o'r naill genhedlaeth i'r llall.
- 2.17 Mae diweithdra ac anweithgarwch economaidd hirdymor yn gysylltiedig ag amrywiaeth o ganlyniadau andwyol, gan gynnwys cynnydd llym mewn amddifadedd materol, llesiant meddyliol a chorfforol yn gwaethygu (gan gyfrannu at lefelau uwch o straen ac iselder), dirywiad cymorth cymdeithasol, ac allgáu

¹¹ Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is – fel arfer, ardaloedd lleol sydd â phoblogaeth o drigolion o ryw 1,500

¹² Dadansoddiad o ddata Cyfrifiad 2011 gan Dîm Cymunedau yn Gyntaf yn Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio Cyfrifiad 2011 yn seiliedig ar gyfran yr aelwydydd lle nad oedd yr un oedolyn (dros 15 oed) mewn swydd yn eu haelwyd yn ôl ardal cynnyrch ehangach haen is

cymdeithasol ehangach, a all, ar y cyd, leihau'r tebygolrwydd o ganfod a chadw swydd ddiogel.¹³

Rhwystrau i Weithio

- 2.18 Yn nodweddiadol, mae pobl sydd heb waith yn wynebu cyfuniad o rwystrau i weithio. Yng Nghymru, iechyd gwael yw'r rhwystr i waith a enwir amlaf, ymysg menywod a dynion. Byddai cyfran sylweddol o bobl ddi-waith sydd â chyflyrau iechyd – ychydig dros 24 y cant – yn hoff o weithio, gan awgrymu bod pobl anabl yn wynebu amrywiaeth uwch o rwystrau i ganfod gwaith a chael gwaith.¹⁴
- 2.19 Cafodd twf aelwydydd un rhiant effaith sylweddol ar nifer a chyfradd yr aelwydydd sydd heb waith yng Nghymru a ledled y Deyrnas Unedig. Oedolion unigol heb blant yw mwyafrif y garfan hon, ond y mae hefyd yn cynnwys oedolion unigol sydd â phlant. Er nad oes data ar gael ar gyfer Cymru yn benodol, mae ystadegau'r Deyrnas Unedig yn awgrymu bod o leiaf ddau draean o'r plant mewn aelwydydd sydd heb waith yn byw gydag unig riant.¹⁵
- 2.20 Yn ôl gwaith ymchwil, mae pob rhwystr y mae rhywun yn ei wynebu yn golygu lleihad sylweddol yn y tebygolrwydd y bydd yn cael gwaith, waeth faint o ddylanwad a gaiff rhwystrau eraill. Er enghraifft, barnodd Blackaby et al. (2003) mai dim ond pedwar y cant o unigolion na wynebai unrhyw rwystrau a oedd yn ddi-waith, o gymharu â 90 y cant o'r rhai a wynebai rwystrau lluosog (sef anabledd, cymwysterau isel, bod dros 50 oed, bod yn aelod o grŵp lleiafrif ethnig, bod heb bartner, a byw mewn ardal sydd â galw isel am lafur).¹⁶
- 2.21 Mae model Esgyn yn hyblyg ac wedi'i ddylunio i fod yn bersonol i amgylchiadau a galluoedd unigol. Mae'r ffurf hyblyg a pharhaus hon o gymorth wedi'i dylunio i helpu i oresgyn yr amryw rwystrau sy'n wynebu cyfranogwyr wrth iddynt ganfod a chadw swydd.

¹³ Crowther et al. (2000) 'Helping people with severe mental illness to obtain work: systematic review', BMJ <http://www.bmj.com/content/322/7280/204>

¹⁴ Arolwg Blyneddol o'r Boblogaeth (2014), *Disability Level by Economic Activity*, <http://www.nomisweb.co.uk>, darllenwyd ar 27^{ain} Awst 2015


¹⁵ Teuluoedd yn y Farchnad Lafur, Arolwg o'r Llafurlu; ONS (2014)

¹⁶ Blackaby et al. (2003) *Identifying Barriers to Economic Activity in Wales*, Adroddiad i'r Uned Ymchwil Economaidd, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003 <http://www.learningobservatory.com/uploads/publications/1179.pdf>

Ailedrych ar y Sail Resymegol

- 2.22 Gan fod trechu tlodi yn un o elfennau canolog polisi Llywodraeth Cymru, mae sail resymegol glir yn parhau ar gyfer ymyriadau o'r natur hon. Mae'r amcangyfrif o gyfran yr aelwydydd yng Nghymru yr ystyrir eu bod heb waith wedi gostwng o 18.8 y cant ar gyfer chwarter Ebrill-Mehefin 2014 i 15.9 y cant ar gyfer yr un cyfnod yn 2016.¹⁷ Mae'r gyfradd yn parhau i fod yn uwch na chyfartaledd y Deyrnas Unedig (14.9 y cant), ond y mae'r bwlch wedi lleihau yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf.¹⁸
- 2.23 Roedd yr amcangyfrifon o gyfraddau'r aelwydydd sydd heb waith ar lefel Cystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn deillio o ddata'r cyfrifiad ac nid oes gwybodaeth ar gael sy'n fwy diweddar. Er hyn, y mae data ar gael ar aelwydydd sydd heb waith ar gyfer ardaloedd awdurdodau lleol (hyd at fis Rhagfyr 2015) ac mae'n dangos bod cyfraddau aelwydydd sydd heb waith wedi gostwng yn y rhan fwyaf o ardaloedd. Mae'r data hefyd yn dangos bod cyfraddau fel arfer yn parhau'n uwch mewn ardaloedd sydd â chyfran uwch o gymunedau sydd ymhlith y 10 y cant o rai o amddifadedd mwyaf (yn ôl y Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru).

Ffigur 2.1: Cyfradd Ganrannol o Aelwydydd Heb Waith - 2015¹⁹



¹⁷ Setiau Data Aelwydydd Arolwg o'r Llafurlu yn cwmpasu Ebrill i Fehefin 2016 (Dyddiad rhyddhau: 1^{af} Medi 2016)

¹⁸ Ar gyfer cyfnod Ebrill-Mehefin 2013, roedd cyfradd yr aelwydydd sydd heb waith dri phwynt canran yn uwch yng Nghymru nag yn y Deyrnas Unedig (20.3 y cant o gymharu ag 17.3 y cant).

¹⁹ Data Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (Ionawr-Rhagfyr 2015), Gwefan yr ONS – Darllenwyd ddiwethaf 1^{af} Tachwedd 2016

<https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/unemployment/bulletins/worklesshouseholdsforregionsacrosstheuk/2015/relateddata>

Tlodi Mewn Gwaith

- 2.24 Tra bo cyfraddau diweithdra a chyfraddau'r aelwydydd sydd heb waith yn parhau i ostwng, mae'r dystiolaeth yn dangos bod y rhai sydd mewn tlodi yn gynyddol o aelwydydd lle mae o leiaf un oedolyn yn gweithio. Yn 2014, roedd 67 y cant o blant sydd mewn tlodi incwm ledled y Deyrnas Unedig yn byw mewn aelwydydd lle mae o leiaf un oedolyn yn gweithio, sydd yn gynydd o'r gyfradd o 54 y cant yn 2003.²⁰ Amcangyfrifir y byddai gostwng cyfradd yr aelwydydd sydd heb waith i ddim (ar sail ffigurau 2014-15) yn lleihau tlodi incwm mewn aelwydydd sydd â phlant o 28 y cant i 23 y cant²¹ yn unig, gan awgrymu bod angen i bolisi symud tuag at ansawdd, cyflogau ac oriau cyflogaeth.
- 2.25 Yn y cyd-destun hwn, mae Rhaglen Esgyn yn rhoi pwyslais sylweddol ar ansawdd y swyddi a sicrhair i gyfranogwyr (yn benodol drwy froceru cyfleoedd gwaith yn genedlaethol). Y mae hefyd yn annog cymorth mewn gwaith i gael ei ddarparu i gyfranogwyr wedi iddynt gael cyfleoedd gwaith.
- 2.26 Gan fyfyrir ar y dystiolaeth ddiweddaraf, y mae sail resymegol yn dal i fod i Esgyn fel ymyrraeth polisi. Mae'n ceisio lleihau cyfradd y rhai sydd heb waith mewn ardaloedd o amddifadedd, a darparu cyfleoedd gwaith o ansawdd, gan fynd i'r afael â'r cynnydd sydd mewn tlodi mewn gwaith sydd i'w weld ledled y Deyrnas Unedig.

²⁰Belfield, C. et al. (2016) Living standards, poverty and inequality 2016, Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid

²¹ Ibid.

3. Dull Methodolegol

Dull Methodolegol yng Nghyfnod 1

- 3.1 Roedd cam cyntaf y gwerthusiad yn canolbwyntio ar egluro'r model rhesymeg sy'n sail i Raglen Esgyn. Roedd yn archwilio gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau disgwyliedig y Rhaglen yn ogystal â'r tybiaethau cysylltiedig a wnaed mewn perthynas â sut mae'r elfennau hyn yn gysylltiedig (a elwir yn aml yn theori newid).
- 3.2 Penllanw'r gwaith ymchwil oedd datblygu theori newid (gweler Atodiad 1²²) i ddisgrifio:
- yr hyn mae ymyrraeth Esgyn yn gwneud
 - pam fod angen ymyrryd
 - beth mae'n ceisio ei gyflawni
 - sut, yn theoretig, y bydd yr ymyrraeth yn arwain at gyflawni'r nodau a ddymunir
 - y tybiaethau sy'n sail i'r theori.

Dull Methodolegol yng Nghyfnod 2

- 3.3 Yng Nghyfnod 2 y gwerthusiad, canolbwyntiwyd ar adolygu ymarfer gweithredol Esgyn, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau fel a amlinellir isod. Mae'r deunydd ymchwil a ddefnyddiwyd drwy gydol Cyfnod 2 i'w weld yn Atodiad 2.

Ymgynghoriadau a Rheolwyr y Rhaglen

- 3.4 Cynhaliodd y tîm ymchwil gyfweiliadau â chynrychiolwyr rheoli'r Rhaglen ar ddechrau Cyfnod 2 er mwyn trafod cynnydd o ran cyflenwi'r Rhaglen, a nodi unrhyw feysydd penodol i'w harchwilio gyda'r staff hynny sy'n ymwneud â'r gwaith o'i chyflenwi. Cynhaliwyd grŵp ffocws yn nes ymlaen tuag at ddiwedd y cyfnod hwn gyda'r rhai hynny a fu'n ymwneud â'r gwaith rheoli ar draws Rhaglen Esgyn er mwyn deall eu safbwyntiau hwy ar gynnydd y Rhaglen hyd yma, ac yn benodol y gwersi a ddysgwyd.

²² Mae'r model hefyd i'w weld ar dudalen 10 adroddiad Cyfnod 1 fan hyn: <http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-lift-Programme/?lang=cy> tudalen 10

Adolygu'r Systemau Monitro

3.5 Ym mhob ardal gyflenwi, mae timau Esgyn, ar ran eu Cyrff Cyflenwi Arweiniol, yn cynnwys rôl 'rheolwr data'. Mae hyn yn golygu bod gofyn iddynt gipio a storio'r holl ddata am y buddiolwyr sy'n berthnasol i gyflenwi'r Rhaglen. Yng nghyfnod blaenorol y gwerthusiad, nodwyd bod pob tîm wedi dylunio ei system a'i ffurf ei hun o gipio data perthnasol ar gyfer pob cyfranogwr. Cynhaliwyd asesiad manylach wedyn gan y tîm ymchwil i nodi:

- pa ddata penodol sy'n cael ei gipio ac ar ba bwynt yn y broses y caiff y data hwn ei gipio?
- sut mae'r wybodaeth honno yn cael ei storio?
- i ba raddau y mae modd creu cyswllt rhwng y data a gaiff ei gipio ar gyfer pob cyfranogwr er mwyn dilyn trywydd taith a chanlyniad y cyfranogwr?

3.6 Fel rhan o'r adolygiad, cynhaliwyd nifer o drafodaethau gyda staff Esgyn ym mhob ardal gyflenwi, gan gynnal adolygiad pellach wedyn o'r systemau fel rhan o'r ymweliadau safle (a ddisgrifir yn nes ymlaen yn yr adran hon).

Ymgynghoriadau â Rheolwyr Clystyrau

3.7 Gwahoddwyd Rheolwyr Clystyrau i dderbyn cyfweiliad wyneb yn wyneb â'r tîm ymchwil fel rhan o ymweliadau safle â phob un o'r ardaloedd cyflenwi. Cymerodd naw o Rheolwyr Clystyrau o'r ardaloedd cyflenwi ran mewn trafodaethau. Roedd y cyfweiliadau yn lled-strwythuredig eu natur, ac yn archwilio eu safbwyntiau ar y dull gweithredu yn eu hardal gyflenwi, yn asesu eu cynnydd hyd yma o ran cyflenwi Rhaglen Esgyn, a nodi eu safbwyntiau ar i ba raddau y mae Esgyn yn cyd-fynd â darpariaethau eraill yn yr ardal honno.

Ymgynghoriadau â Mentoriaid Esgyn

3.8 Prif ffocws yr ymweliadau safle oedd y cyfweiliadau wyneb yn wyneb â Broceriaid/Mentoriaid Esgyn (cyfwelwyd â chyfanswm o 18 o Fentoriaid). Nod y cyfweiliadau oedd cael dealltwriaeth fanwl o'r model cyflenwi a ddefnyddiwyd ym mhob ardal. Roedd yr ymgynghoriadau hefyd yn archwilio'r dulliau a ddefnyddiwyd mewn perthynas â monitro a gwerthuso ar gyfer y Rhaglen.

Ymgynghoriadau Wyneb yn Wyneb â Chyfranogwyr

- 3.9 Yn ystod yr ymweliadau safle, bu'r tîm ymchwil yn ymgysylltu â chyfranogwyr Rhaglen Esgyn; cododd cyfleoedd i ymgysylltu â'r cyfranogwyr wyneb yn wyneb yn bennaf lle'r oedd cyfranogwyr yn bresennol ar y safle i dderbyn hyfforddiant neu mewn sesiwn gymorth, gan alluogi'r ymchwilydd i fanteisio ar y sesiynau hyn. Roedd yr ymgynghoriadau hyn yn rhoi'r cyfle i archwilio cefndiroedd a phrofiadau'r cyfranogwyr a pheilota'r canllaw trafod a ddatblygwyd ar gyfer yr arolwg ffôn dilynol.

Arolwg Ffôn y Cyfranogwyr

- 3.10 Mae'r dull a ddefnyddiwyd ar gyfer yr arolwg ffôn yn dilyn math o ddyluniad o ailadrodd cyfweliad, lle mae'r arolwg cychwynnol yn sefydlu'r llinell sylfaen er mwyn cymharu yn nes ymlaen, ac mae'r ail-gyfweliad dilynol yn rhoi darlun o'r trywydd dros amser. Yn y cyfweliad llinell sylfaen, holwyd y cyfranogwyr ynglŷn â'r sefyllfa cyn iddynt ymwneud ag Esgyn mewn unrhyw fodd, yn ogystal â'u hargraffiadau cyntaf o'r rhaglen a'u profiadau.
- 3.11 Cafwyd manylion cyswllt y cyfranogwyr o bob ardal gyflenwi i alluogi i'r tîm ymchwil gynnal arolwg ffôn gyda'r rhai a fu'n ymwneud â Rhaglen Esgyn yn ystod y chwe mis diwethaf. Cynhaliwyd yr arolwg ffôn ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2016 gan dargedu'r boblogaeth a fu'n ymwneud â'r Rhaglen ers mis Ionawr 2016. Darparwyd manylion cyswllt gan bob ardal gyfenwi, gan roi cyfanswm o 213 o enwau cyswllt posibl. Cwblhawyd yr arolwg gan 105 o'r unigolion hynny, gan olygu cyfradd ymateb o 49 y cant.
- 3.12 Bydd yr ail gyfweliad â'r cyfranogwyr hyn yn fwy adolygol ei natur, gan archwilio'r canlyniadau a'r effeithiau i'r cyfranogwyr, a'r canfyddiad o briodoli'r rhain i'r cymorth a dderbyniwyd (tua chwe mis ar ôl y cyfweliad cyntaf, gweler Tabl 3.1).
- 3.13 Wrth ddylunio'r fethodoleg, rhagwelwyd y byddai poblogaeth fwy o faint yn gymwys i fod yn rhan o'r arolwg. O ganfod bod y rhifau yn is na'r disgwyl, addaswyd dyluniad yr arolwg i ymgorffori tair ton wahanol o gyfweliadau â chyfranogwyr, gyda Thon 1 a Thon 2 i gael eu cyfweld ddwywaith, a Thon 3 i gael ei chyfweld unwaith (gweler Tabl 3.1 i weld amserlen y dull diwygiedig). Nod yr adolygiadau hyn yw cynyddu'r boblogaeth sy'n gymwys i fod yn rhan o'r arolwg, ond gan lynu wrth y cyfnod byr o amser rhwng yr adeg pan fo'r cyfranogwyr yn dod i gyswllt ag Esgyn gyntaf a'u cyfweliad llinell sylfaen.

Tabl 3.1: Tonau Arolwg y Cyfranogwyr

	Mai 2016	Tachwedd 2016	Mai 2017
Ton 1	Cyfweliad	Ail-gyfweliad	
Ton 2		Cyfweliad	Ail-gyfweliad
Ton 3			Cyfweliad

Cyfweliadau â Chyflogwyr

- 3.14 Cynhaliwyd cyfres o gyfweliadau ffôn lled-strwythuredig â 10 o gyflogwyr sydd â chyfranogwyr Esgyn ar leoliadau profiad gwaith neu mewn rolau parhaol yn eu sefydliadau. Nod yr arolwg oedd canfod sut y daeth y cyflogwyr yn ymwybodol o Raglen Esgyn a'u profiadau o ymwneud â chyfranogwyr Esgyn a'u cyflogi.
- 3.15 Wrth ddylunio'r fethodoleg, tybiwyd y byddai rhagor o gyflogwyr y gallai'r tîm ymchwil ymgysylltu â nhw. Er hyn, un o'r canfyddiadau a ddaw i'r amlwg o'r gwerthusiad hwn yw nad yw cyflogwyr yn aml yn ymwybodol o raglen Esgyn; nid ydynt chwaith yn ymwybodol bod y rhai a gyflogwyd ganddynt yn gyfranogwyr Esgyn.

Cyfyngiadau'r dull methodolegol

- 3.16 Fel a amlinellwyd yn gynharach, bu i'r gwerthuswyr ganfod poblogaeth gymwys lai o gyfranogwyr a chyflogwyr na'r disgwyl. O ganlyniad, dylid bod yn ofalus wrth ddod i gasgliadau ar sail y canfyddiadau.
- 3.17 Roedd elfennau o'r arolwg o'r cyfranogwyr yn archwilio effeithiau, yn ôl eu canfyddiad eu hunain, a gwyd o'r cymorth. Mae'r rhain yn parhau i fod yn safbwyntiau goddrychol; caiff effaith y Rhaglen ei phrofi drwy ddulliau llai goddrychol, gan ystyried data a adroddwyd ac a arsylwyd, fel rhan o gyfnod terfynol y gwaith ymchwil.

4. Canfyddiadau

- 4.1 Mae'r bennod hon yn archwilio Rhaglen Esgyn i fwy o ddyfnder, gan adolygu gweithrediad theoretig Rhaglen Esgyn, a chymharu hyn â'r dull o gyflenwi'r rhaglen.

Darparu adnoddau ar gyfer Rhaglen Esgyn

Staffio mewn Ardaloedd Cyflenwi

- 4.2 Ym Mhennod 2, amlinellwyd yr adnoddau a ddyfarnwyd i bob un o ardaloedd cyflenwi Rhaglen Esgyn. Tybiaeth allweddol yn y theori newid yw y byddai dau Fentor yn cael eu penodi i bob ardal gyflenwi, ac y byddai hyn yn cynnig adnodd digonol (gan hefyd gynnig digon o ddilyniant petai'r staff yn newid) i gyflenwi'r Rhaglen.
- 4.3 Mae Tabl 4.1 isod yn rhoi trosolwg o'r strwythur staffio ym mhob ardal gyflenwi. Mae'r tabl yn dangos bod mwyafrif yr ardaloedd yn gweithredu gyda'r cwota staffio disgwylidig, gydag aelodau ychwanegol o staff fel arfer yn cael eu penodi lle mae mwy nag un clwstwr yn bodoli oddi mewn i un ardal gyflenwi (Sir y Fflint a Blaenau Gwent) neu pan fo'r Clwstwr yn arbennig o fawr (Dwyrain Caerdydd).

Tabl 4.1: Strwythur Staffio Rhaglen Esgyn yn ôl Ardal Gyflenwi

Ardal Gyflenwi	Staffio ²³	Rheolwr Llinell
Ynys Môn (Ynys Môn)	Mentoriaid (x 2 cyfwerth ag amser llawn) Gweinyddwr (rhan amser)	Rheolwr Cyflogadwyedd Cymunedau yn Gyntaf Môn
Dwyrain a Gorllewin Sir y Fflint (Sir y Fflint)	Mentoriaid (x 2 cyfwerth ag amser llawn)	Rheolwr Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf
Cwm Afan (Castell-nedd Port Talbot)	Mentoriaid (x 2 cyfwerth ag amser llawn) (un swydd heb ei llenwi Ebrill i Awst 2016)	Rheolwr Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf
Gogledd-orllewin Abertawe (Abertawe)	Mentoriaid (x 2 cyfwerth ag amser llawn)	Rheolwr Esgyn a Chymunedau Am Waith Abertawe
Llanelli (Sir Gaerfyrddin)	Mentoriaid (x 2 cyfwerth ag amser llawn)	Rheolwr Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf

²³ Yn y tabl uchod, mae'r term 'Mentoriaid' yn disgrifio'r staff cyflenwi hynny sydd â theitl swydd yn cynnwys Broceriaid, Uwch Froceriaid neu Uwch Fentoriaid

Ardal Gyflenwi	Staffio ²⁴	Rheolwr Llinell
Ebwy Fawr a Thredegar (Blaenau Gwent)	Mentoriaid (x 3 cyfwerth ag amser llawn) – 1.5 ym mhob Clwstwr	Rheolwr Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf
Basn Caerffili a Dyffryn Rhymni Uchaf (Caerffili)	Mentoriaid (x 3 cyfwerth ag amser llawn) 1 Mentor ym mhob Clwstwr, 1 uwch Fentor (mae'r uwch Fentor bellach yn rheoli Esgyn a Chymunedau am Waith)	Uwch Fentor Cyflogaeth
Dwyrain Caerdydd (Caerdydd)	Mentoriaid (x 3 cyfwerth ag amser llawn) Gweinyddwr (rhan amser) Cyfranogwyr Gwirfoddol Esgyn (gweinyddu)	Cynrychiolydd Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd
Gorllewin Taf (RhCT)	Mentoriaid (x 2 cyfwerth ag amser llawn)	Rheolwr Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf

- 4.4 Yn gyffredinol, mae gan y staff a benodwyd i rôl Fentor amrywiaeth eang o brofiadau, fel arfer yn ymwneud â gweithgarwch yn gysylltiedig â chyflogadwyedd a/neu ddatblygu cymunedol. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae eu profiad blaenorol yn arbennig o berthnasol i'w gwaith ar gyfer y Rhaglen, a phwysleisiodd nifer o staff cyflenwi bwysigrwydd cysylltiadau blaenorol a/neu rwydweithiau presennol a'u bod yn allweddol i'w galluogi i ymgysylltu â chyfranogwyr posibl a nodi cyfleoedd hyfforddiant/gwaith perthnasol.
- 4.5 Yng Nghwm Afan, yn dilyn ymddiswyddiad un aelod o staff, bu i un o swyddi'r Mentoriaid barhau heb ei llenwi am sawl mis.²⁵ Dywedwyd bod hyn wedi effeithio ar gyflenwi Esgyn, gyda'r Mentor arall yn methu â chyflawni'r holl dasgau o gyflenwi'r gwasanaeth a'r tasgau gweinyddol. Mae'r profiad yng Nghwm Afan yn dangos y risg sy'n gysylltiedig â dibynnu ar nifer fach o staff fesul ardal gyflenwi.

²⁴ Yn y tabl uchod, mae'r term 'Mentoriaid' yn disgrifio'r staff cyflenwi hynny sydd â theitl swydd yn cynnwys Broceriaid, Uwch Froceriaid neu Uwch Fentoriaid


²⁵ Yn gywir ym mis Ebrill 2016

Gweithgareddau yn Gysylltiedig â Rhaglen Esgyn

Model Cyflenwi

- 4.6 Mae dull pum cam i fodel Esgyn, gan ganiatáu i'r cyfranogwyr symud ymlaen yn gyflym neu fanteisio ar gymorth mwy dwys a hirdymor os oes rhwystrau ac anghenion mwy sylweddol. Mae Ffigur 4.1 yn dangos camau allweddol atgyfeirio a chyswllt, meithrin ymddiriedaeth, creu cynllun gweithredu, symud tuag at gyflogaeth gynaliadwy ac yn y pen draw cael gwaith cynaliadwy.

Ffigur 4.1: Model Cyflenwi a Gynlluniwyd ar gyfer Rhaglen Esgyn²⁶



Atgyfeirio a Chyswllt - Tybiaethau

- 4.7 Am mai cyfyngedig yw'r adnoddau sydd ar gael, roedd disgwyl i'r Rhaglen ddibynnu ar atgyfeiriadau fel ffordd i ymgysylltu, gan gynnwys drwy ddigwyddiadau a gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned a drefnir gan y Clwstwr, atgyfeiriadau gan gynghorwyr yn y Ganolfan Waith leol ac atgyfeiriadau gan asiantaethau eraill sydd â phwyslais cryf ar ymgysylltu / allgymorth yn y gymuned. Mae'r model hwn yn tybio bod modd i dimau Esgyn ymgysylltu'n effeithiol ag asiantaethau atgyfeirio allweddol, yn arbennig y Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf a swyddfeydd y Ganolfan Byd Gwaith.

²⁶ Rhaglen Mynd i'r Afael ag Aelwydydd Heb Waith – Briff, Llywodraeth Cymru (2013)

- 4.8 Ymhellach, yr oedd disgwyl y byddai cymhwysedd ar gyfer y Rhaglen yn cael ei bennu wrth gychwyn, yn seiliedig ar y dybiaeth y byddai cyfranogwyr yn datgan eu cymhwysedd eu hunain.

Nodi Cyfranogwyr Cymwys – Canfyddiadau

Canolfannau Gwaith Lleol

- 4.9 Mae'r gwaith ymchwil yn nodi bod ardaloedd cyflenwi yn wir yn dibynnu'n fawr ar atgyfeiriadau i Raglen Esgyn, a'r Canolfannau Gwaith yw'r llwybr atgyfeirio a nodwyd amlaf. Yn ôl adborth y staff cyflenwi, mae nifer yr atgyfeiriadau a geir gan y Canolfannau Gwaith Lleol yn amrywio'n sylweddol o un ardal gyflenwi i'r llall yn ogystal ag o un Ganolfan Waith i'r llall. Mae'n ymddangos bod nifer yr atgyfeiriadau yn ddibynnol i raddau helaeth ar berthnasoedd unigol rhwng Mentoriaid a Hyfforddwyr Gwaith y Canolfannau Gwaith, gydag un ardal gyflenwi yn pwysleisio pwysigrwydd cynnal perthynas agos ag asiantau atgyfeirio allweddol: *'Am ein bod wedi bod yn mynd am ddwy flynedd, rydym wedi nodi Cynghorwyr allweddol y Ganolfan Waith sy'n atgyfeirio mwyafrif y bobl inni, felly, yn gyson bob mis, rhown alwad iddynt a chael sgwrs i weld a oes unrhyw faterion neu broblemau a gweld pa atgyfeiriadau y mae modd inni eu cael'*. Mynegwyd pryder gan Fentor arall, a welodd niferoedd amrywiol o atgyfeiriadau, ei bod yn *'ymddangos nad oes proses yn ei lle i bwysleisio'r gwahaniaeth hwn oddi mewn i'r canolfannau gwaith* [gyda Rheolwyr Ardal y Canolfannau Byd Gwaith]', a allai arwain at berthynas sy'n fwy cyson.
- 4.10 Mae natur yr atgyfeiriadau o Ganolfannau Gwaith Lleol hefyd yn go amrywiol, gyda rhai Mentoriaid yn disgrifio cyfranogwyr a fyddai, wrth ddod i gyswllt am y tro cyntaf, yn dweud *'fe wnaeth y Ganolfan Waith fy anfon i'*, a hwythau'n gwbl amlwg heb fod eisiau bod yno. O dan yr amgylchiadau hyn, defnyddir natur wirfoddol y cyswllt i dawelu'r sefyllfa.
- 4.11 Gan gydnabod mai heriol fyddai i'r Ganolfan Waith leol ddeall popeth a gynigir drwy'r Rhaglen, llwyddodd tîm Esgyn Abertawe i gael desg yn y Ganolfan Waith am un diwrnod yr wythnos. Byddai'r Hyfforddwyr Gwaith wedyn yn dod ag ymgeiswyr a allai fod yn gymwys i'r Rhaglen at y Mentor, a allai wedyn drafod eu cymhwyster a manteision posibl Rhaglen Esgyn. Teimlai'r tîm cyflenwi i'r dull hwn eu helpu i osgoi unrhyw ddiffyg cyfathrebu mewn perthynas â rhaglen Esgyn a'r broses atgyfeirio gysylltiedig.

- 4.12 Llwybr atgyfeirio cyffredin arall yw drwy weithgarwch ymgysylltu Cymunedau yn Gyntaf. Er i'r llwybr hwn gael ei gydnabod gan lawer, roedd canfyddiad y Mentoriaid o'i effeithiolrwydd yn amrywio o ardal i ardal. Mewn ardaloedd cyflenwi lle mae perthynas gref rhwng staff Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf a thîm cyflenwi Esgyn, y mae nifer ddefnyddiol o atgyfeiriadau. Mewn ardaloedd eraill, nodai'r timau cyflenwi fod y berthynas yn wannach. Roedd y gwendidau hyn fel arfer ar lefel unigol yn hytrach nag ar draws y sefydliad. Dywedwyd bod hyn yn effeithio'n negyddol ar nifer ac ansawdd yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd.
- 4.13 Roedd y llwybrau atgyfeirio cyffredin eraill a nodwyd gan y Mentoriaid yn cynnwys drwy Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, Gwasanaethau Prawf, Gyrfa Cymru, Ffeiriau Swyddi / Digwyddiadau Ymgysylltu â Chyflogwyr a darpariaeth Teuluoedd yn Gyntaf / Dechrau'n Deg, a chyfeiriodd nifer o ardaloedd cyflenwi at glywed ar lafar: *'mae pobl yn ein ffonio ac yn dweud "dwedodd fy ffrind wrthyf am eich ffonio"'*.
- 4.14 Nid yw'r ardaloedd cyflenwi yn ddibynnol ar atgyfeiriadau yn unig, a chyfeiriodd nifer at weithgarwch allgymorth mewn canolfannau cymunedol lleol (mae'r dull hwn yn gyffredin yn benodol mewn Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf sydd ar wasgar yn ddaeryddol). Mae timau ardaloedd cyflenwi eraill, yn arbennig y rhai sy'n gweithredu mewn lleoliadau amlwg sydd â nifer o bobl yn cerdded heibio, yn cynnal sesiynau galw heibio neu'n elwa o rai'n cerdded i mewn neu'n atgyfeirio eu hunain.
- 4.15 Nododd nifer o ardaloedd bod y cyfyngiadau o ran ffiniau i'r Rhaglen yn her: *'Mae gan y Rhaglen y fath enw da ac mae pobl eisiau bod yn rhan ohono; maent yn dod i mewn drwy eu ffrindiau sy'n dweud wrthynt am gysylltu â ni, ond nid oes modd inni eu helpu. Gallwn eu cyfeirio neu anfon e-bost ar eu rhan'*. Creodd hyn rywfaint o rwystredigaeth ymysg Mentoriaid, yn rhannol am fod gweithgarwch Clystyrau eraill yn elwa o sefyllfa lle nad yw ffiniau daearyddol mor llym.

Adeiladu Ymddiriedaeth

Adeiladu Ymddiriedaeth - Model Esgyn a Ragwelwyd

- 4.16 Cynllun gwirfoddol yw Esgyn ac mae ei grŵp cleient targed yn rhai sy'n anoddach eu cyrraedd/cynorthwyo. Mae'r model felly yn tybio bod cyfranogwyr cymwys eisiau gweithio neu'n gwneud cynnydd tuag at weithio, a bod modd i'r broceriaid sicrhau bod y cyfranogwyr yn ymgysylltu o'u gwirfodd. Mae'r model hefyd yn tybio bod y cymunedau o'r farn bod Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn sefydliadau

annibynnol y gellir ymddiried ynddynt ac sydd ar wahân i wasanaethau'r sector cyhoeddus (megis Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Adran Gwaith a Phensiynau) am fod Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf wedi ymwreiddio yn y gymuned.

Meithrin Ymddiriedaeth – Safbwyntiau'r Mentoriaid

- 4.17 Fel sydd yn amlwg ym model y cynllun busnes ar gyfer Rhaglen Esgyn, roedd y Mentoriaid o'r farn bod meithrin ymddiriedaeth ymhlith chyfranogwyr Esgyn yn hanfodol i'r broses ymgysylltu. Disgrifiodd un Mentor sut roedd pwysigrwydd meithrin ymddiriedaeth yn cael ei ddylanwadu gan y profiad gwael y gallai cyfranogwr fod wedi'i gael gyda gwasanaethau statudol neu Raglenni blaenorol. Yn aml, byddai'r cyfranogwyr wedi'u trosglwyddo o un gwasanaeth i wasanaeth arall heb lawer o fudd dirnadwy, gan arwain at fwy o amheuaeth ynglŷn â'r ddarpariaeth y maent yn ymwneud â hi.
- 4.18 Soniodd y Mentoriaid am yr angen i fod yn anffurfiol yn eu dull o weithredu. Mae eu ffordd o ymgysylltu yn canolbwyntio ar yr unigolyn gan roi pwyslais cychwynnol ar drafod sefyllfa bresennol y cyfranogwr (a'u cefndir, os yw'r cyfranogwyr yn fodlon rhannu hynny) ac archwilio beth sydd o ddiddordeb iddynt, am beth maent yn chwilio mewn bywyd, ac (os yw'r cleient yn barod) y math o waith y gallent fod yn hoff o'i wneud.
- 4.19 Roedd y ffaith eu bod yn ymgysylltu'n wirfoddol hefyd o gymorth i feithrin ymddiriedaeth, ond yr oedd yn arwain at achosion lle y methai'r cyfranogwyr ddod i'r sesiynau gyda'u Mentor. Yn yr achosion hyn, meddai un Mentor ei fod yn pwysleisio ei '*bryder am les [y cyfranogwr]*' er mwyn ceisio cynyddu presenoldeb. Os yw cyfranogwyr yn methu ag ymgysylltu'n rheolaidd, mae eu dull o weithredu yn newid i '*yn yr un modd, os nad ydych eisiau bod yma...*' i sicrhau na chaiff adnoddau eu gwastraffu ar rai nad ydynt yn dangos unrhyw ymrwymiad i gyfranogi.
- 4.20 Disgrifiad nodweddiadol y Mentoriaid o'r cyfranogwyr oedd eu bod yn unigolion â sgiliau isel sydd â diffyg hyder, yn dioddef o faterion iechyd meddwl ac yn teimlo wedi'u hallgau yn gymdeithasol. Disgrifiwyd cyfranogwyr Esgyn gan nifer o Fentoriaid yn nhermau'r cymorth sydd ei angen a'r pellter o'r farchnad lafur; hynny yw, ychydig o gymorth sydd ei angen ar rai er mwyn cael mynediad at y farchnad lafur, ond mae angen cymorth dwys ar y mwyafrif oherwydd maint a natur y rhwystrau y maent yn eu hwynebu.

- 4.21 Mae amrywiaeth sefyllfaoedd y cyfranogwyr y mae'r Mentoriaid yn ymdrin â hwy yn galw am ddull hyblyg iawn. Dyma ddisgrifiad un Mentor o'r amryw sefyllfaoedd:

'Gallech fod yn talu iddynt fynd ar gwrs... archebu'r hyfforddiant a dweud wrthynt ble maent yn mynd; mae hynny'n gyffyrddiad go ysgafn. Ond gyda rhywun arall, gallech fod yn mynd at y meddyg, yn siarad am y ffaith eu bod eisiau cyflawni hunanladdiad, neu fod ganddynt yr holl anawsterau yma gartref fel camddefnyddio cyffuriau... felly am wn i ei fod yn ymwneud â meddu ar ddulliau gwahanol yn dibynnu ar y cleient.'
[Mentor Esgyn]

- 4.22 Un pwynt a gododd yn rheolaidd yw y caiff yr ymddiriedaeth ei atgyfnerthu drwy 'wneud yn siŵr y gwnawn yr hyn y dwedwn a wnawn'.

Creu Cynlluniau Gweithredu

Model Esgyn

- 4.23 Yn ganolog i fodel Esgyn y mae datblygu cynllun gweithredu er mwyn gosod cyfres o nodau a chmau mesuradwy. Wedi i'r cyfranogwr ddod i gyswllt â thîm Esgyn a bod lefel resymol o ymddiriedaeth wedi'i sefydlu, bydd y cyfranogwr yn dilyn cynllun strwythuredig i symud tuag at waith ac i mewn i waith. Mae'r broses o greu cynllun gweithredu yn ceisio nodi'r rhwystrau y mae'r cyfranogwyr yn eu hwynebu a chanfod atebion priodol. Mae'r nodau a gaiff eu gosod yn y cynllun gweithredu yn cyfarwyddo barn y broceriaid ar y math o gyfleoedd a fyddai'n fwyaf addas i unigolyn. Tybir y gall y mentoriaid nodi a pharu cyfleoedd perthnasol a hygyrch i'r cyfranogwyr. Mae cyfuniad amrywiol o gyfleoedd sy'n deillio'n genedlaethol ac sydd ar gael yn lleol yn hanfodol i lwyddiant y dull hwn o weithredu.

Cyflenwi Rhaglen Esgyn

- 4.24 Mae'r dull o greu cynllun gweithredu yn amrywio'n sylweddol rhwng ardaloedd cyflenwi. Mewn rhai ardaloedd, meddai'r Mentoriaid bod y dull rywfaint yn ad hoc; weithiau'n anfwriadol (oherwydd diffyg capasiti), ac weithiau'n fwriadol (i osgoi rhoi gormod o bwysau ar rai unigolion).

- 4.25 Ar y llaw arall, mewn ardaloedd eraill, mae'r cynllun gweithredu yn elfen hanfodol o fodel Esgyn o ddarparu gwasanaeth.

'Cytunwn ar amserlen sydd â nodau tymor byr (1-3 mis) a nodau tymor hir (3-6 mis). Mae'r cynllun gweithredu yn ceisio mynd i'r afael â rhwystrau, ond yn y rhan fwyaf o achosion daw llawer o rhwystrau fel cyffuriau ac alcohol, gofalu a materion iechyd meddwl i'r amlwg wrth inni fwrw ymlaen drwy'r cynllun gweithredu, felly caiff ei addasu'n gyson.' [Mentor]

- 4.26 Mae nifer o ardaloedd yn defnyddio offer presennol (mae Abertawe yn defnyddio'r Seren Waith²⁷ tra bod Taf yn defnyddio DOTS²⁸ ac Ebwy Fawr/Tredegar yn defnyddio dull Graddfa Rickter²⁹ wrth holi) er mwyn helpu i ddeall pa mor bell y mae unigolyn o'r farchnad lafur, natur y rhwystrau sy'n eu hwynebu, a darparu llinell sylfaen er mwyn mesur cynnydd unigolyn yn ei herbyn. Mae'r canfyddiadau dilynol wedyn yn helpu i gyfeirio'r cynllun gweithredu a gaiff ei gytuno gyda'r cyfranogwr.
- 4.27 Mae pryd yr eir ati i gyflwyno cynllun gweithredu i gyfranogwr yn amrywio o un ardal gyflenwi i'r llall, ac o un cleient i'r llall. Yn fwyaf cyffredin, eir ati i gychwyn ar gynllun gweithredu yn yr ail neu'r trydydd apwyntiad gyda chyfranogwr.
- 4.28 Os yw'r cynllun gweithredu yn elfen allweddol o'r gwasanaeth a ddarperir, caiff ei adolygu'n rheolaidd gyda'r cleientiaid:

'Bob tro maen nhw'n dod i mewn ar ôl hynny, bob tro y byddwn yn eu gweld, rydym yn llenwi ffurflen fentora gan nodi unrhyw ddiweddariadau, a defnyddiwn hyn a'r cynllun gweithredu i nodi cynnydd a dilyn trywydd – rydym yn cadw cofnod o ba bryd maen nhw'n dod i mewn, yn nodi sgôr i'w disgwyliadau ac yn dilyn trywydd mesurau perfformiad.' [Mentor]


²⁷ Gweler www.outcomesstar.org.uk/work/

²⁸ Dysgu ar sail penderfyniadau, Ymwybyddiaeth o ddewisiadau, Dysgu ar sail trawsnewid, Hunan-ymwybyddiaeth – i gael mwy o wybodaeth, gweler Kidd, J.M. (1996) The Career Counselling Interview. In Watts et al., *Rethinking Careers Education and Guidance: Theory, Policy and Practice*, Llundain: Routledge, tt 189-209.

²⁹ Offeryn yn seiliedig ar gyfres o raddfeydd symudol a ddylunnir i fesur dangosyddion meddal a phellter a deithiwyd – gweler <http://www.rickterscale.com/what-we-do/the-rickter-scale>

- 4.29 Mae amlder yr apwyntiadau gyda'r cyfranogwyr hefyd yn hyblyg iawn ac unwaith eto yn amrywio o ardal i ardal. Mewn nifer o ardaloedd, mae'r Mentoriaid yn anelu at gwrdd â'r cyfranogwyr yn wythnosol; mewn ardaloedd eraill, caiff cyfarfodydd eu cynnal bob pythefnos, ac mewn un ardal mae Mentor yn cwrdd â rhai cyfranogwyr yn ddyddiol. Mae angen hyblygrwydd am fod rhai cyfranogwyr yn cael trafferth o ran bod yn rheolaidd a chadw at amser ac, i ryw raddau, mae anghenion y cyfranogwyr yn pennu pa mor reolaidd y caiff cyfarfodydd eu cynnal.
- 4.30 Mae hefyd gan Fentoriaid sy'n gweithredu mewn lleoliadau amlwg, hygyrch sydd â llawer o bobl yn cerdded heibio, hefyd gyfranogwyr yn galw heibio ac fel arfer mae'n rhaid iddynt gynnig cymorth mewn modd ad hoc.
- 4.31 Cyfeiriodd y Mentoriaid at amryw heriau o ran ymgysylltu, er enghraifft yr angen am ddulliau diogelu priodol ar gyfer apwyntiadau, os oes diffyg gwybodaeth am gefndir cyfranogwr, neu os oes tystiolaeth o euogfarnau troseddol blaenorol.
- 4.32 Cyfeiriodd eraill at sut mae natur y cleientiaid wedi newid wrth i'r Rhaglen fynd rhagddi, gan olygu bod angen newid dull gweithredu: *'Rydym wedi cael y rhai y mae modd eu datrys yn gyflym – rydym yn awr yn symud tuag at y rhai anodd eu cyrraedd – e.e. rhai a fu'n ddi-waith am 15-20 mlynedd. Gan gofio hyn, mae angen inni ystyried sut mae natur taith yn newid'*. Mae Ffigur 4.2 isod yn dangos cyfraddau'r bobl sy'n ddi-waith yn y tymor hir yn yr ardaloedd cyflenwi ac yn pwysleisio, mewn rhai ardaloedd, y bu bron i hanner cyfranogwyr Esgyn yn ddi-waith am o leiaf bum mlynedd neu nad ydynt wedi gweithio erioed.

Ffigur 4.2: Cyfran Cyfranogwyr Esgyn (Ebrill 2014 - Mawrth 2016) a fu'n ddi-waith am bum mlynedd neu fwy neu sydd heb weithio erioed³⁰



³⁰ Data Dilyn Trywydd Cyfranogwyr Llywodraeth Cymru – Data Cronnus ar gyfer 2014 a 2015

- 4.33 Myfyriai Mentoriaid eraill ar yr her o ymdrin â rhwystrau niferus a blaenoriaethu yn unol â hynny: *‘Mae gennym gleientiaid sydd â rhwystrau niferus, e.e. camddefnyddio sylweddau, trais domestig, digartrefedd, dyled, cofnodion troseddol, gofal plant. Rydym yn ymdrin â’r rhwystrau hyn ar sail hierarchaeth o anghenion, felly os ydym yn siarad am gwrs hyfforddi sydd ar gael a bod rhywun ar fin cael ei wneud yn ddigartref, yn amlwg byddwn yn rhoi blaenoriaeth i’r ail rwystr hwn’.*

‘Mae gennym rai cyfranogwyr sy’n awyddus iawn i gael hyfforddiant a lleoliadau, ond maen nhw gymaint ar ei hôl hi ar ôl-ddyledion rhent; y peth olaf y gallant feddwl amdano yw cael swydd am fod yn rhaid iddynt gadw to uwch eu pen. Felly fe fyddwn yn edrych ar eu sefyllfa o ran tŷ a’r holl wasanaethau, er mwyn darparu’r cymorth cywir i’r person hwnnw cyn iddo dderbyn unrhyw hyfforddiant. Felly rydym yn sefydlogi’r bywyd teuluol ac yn ceisio gwneud hynny.’

[Mentor]

- 4.34 Cododd un sefyllfa o’r fath yn ystod cyfweiliad gyda Mentor lle daeth cyfranogwr Esgyn i mewn i’r ystafell, gan ddweud *‘Mae gen i ddau o blant, rydw i mewn dyled, mae angen imi gael swydd ond nid oes gen i arian i dalu am ofal plant, rydw i mewn perygl o golli fy mudd-daliadau ac rwyf wedi derbyn gorchymyn troi allan felly mewn pythefnos fe fyddaf i a fy mhiant yn ddigartref’* [Cyfranogwr Esgyn].
- 4.35 Mae’r datrysiadau hyn yn dangos amrywiaeth y sefyllfaoedd y mae’r Mentoriaid yn eu hwynebu, sy’n galw am wybodaeth fanwl o’r gwasanaethau sydd ar gael. Wrth wynebu’r sefyllfaoedd hyn, meddai un Mentor fod yr her yn fater o *‘gynnal ffiniau’r rôl, hynny yw peidio â bod yn weithiwr allweddol a chaniatáu i’r cleient fod yn ddibynnol arnom ni am bopeth’.*
- 4.36 Maent hefyd yn amlygu maint y rhwystrau y mae’r cyfranogwyr yn eu hwynebu ac felly dwyster a hyd y cymorth sy’n ofynnol er mwyn eu cael yn agosach at gael swydd: *‘Mae rhai yn bell iawn i ffwrdd, i rai mae’n bymtheg mis ers iddynt ddod i gyswllt gyntaf, ond maent yn ymgysylltu’n gyson ac maent yn cyflawni mân nodau’.*

Astudiaeth Achos

Cyflwynwyd Charlie³¹ i Raglen Esgyn yn haf 2015. Nid oedd yn siŵr beth fyddai ei gam nesaf ar ôl methu â chael lleoliad gwaith gyda chyflogwr a fyddai'n ei alluogi i barhau â'i hyfforddiant Gosodiadau Trydanol. Roedd eisoes wedi llwyddo ar Lefel 1 a 2 ac roedd yn awyddus i barhau â'i hyfforddiant yn y maes hwn.

Y cymorth cychwynnol a gafodd Charlie oedd arweiniad a chymorth yn ymwneud â beth oedd ei opsiynau, yn ogystal â llunio CV cyfredol. Nid oedd yn dymuno cofrestru i hawlio budd-daliadau am ei fod yn awyddus iawn i ddatblygu gyrfa yn y maes y bu'n astudio ynddo. Ond realiti'r sefyllfa i Charlie oedd, oni bai y byddai'n dod o hyd i gyflogwr a fyddai'n barod i'w gymryd fel Prentis Trydanwr, ni fyddai modd iddo ailgychwyn yn y coleg ym mis medi 2015 er mwyn cwblhau ei gwrs Gosodiadau Trydanol.

I gychwyn, cafodd Charlie ei gyfeirio a'i gynorthwyo i gofrestru ar wefan Gyrfa Cymru i edrych ar gyfleoedd prentisiaethau ehangach. Derbyniodd gymorth i ymgeisio am swyddi mewn meysydd cysylltiedig fel Peirianeg Fecanyddol. Yn anffodus, ni fu Charlie yn llwyddiannus yn ei geisiadau. Erbyn y cam hwn, roedd wedi digalonni ac yn isel ei hyder.

Awgrymwyd wrth Charlie y gallai elwa o gael Profiad Gwaith, a fyddai'n datblygu ei hyder ac yn rhoi profiad gwaith ystyrlon iddo y gallai ei ddefnyddio i'w helpu i gael swydd neu hyfforddiant addas yn y dyfodol. Roedd Charlie yn awyddus i weithio gydag Esgyn i ddod o hyd i gyfle addas. Awgrymwyd y byddai rôl a ddefnyddiai ac a ddangosai ei ddiddordeb mewn sgiliau ymarferol yn addas iddo. Daeth Esgyn o hyd i gyfle i Charlie mewn busnes adfer dodrefn yn agos i'w gartref fel y byddai modd iddo fynd yno. Llwyddodd Esgyn hefyd i ddwyn perswâd ar y cyflogwr, petai Charlie yn llwyddiannus a phetai'r cyflogwr o'r farn ei fod yn addas, y gallai hyd yn oed symud ymlaen i rôl â thâl drwy Dwf Swyddi Cymru wedi i'w leoliad gwaith ddod i ben.

Cwblhaodd Charlie bythefnos o leoliad gwaith yn llwyddiannus ond gwelodd nad oedd y rôl yr hyn yr oedd yn chwilio amdani. Er hynny, yr oedd wedi magu hyder gwerthfawr ac wedi elwa o'i gyfnod yn y gweithle. Parhaodd Esgyn i roi cymorth i Charlie i ddod o hyd i'w gyfle delfrydol.

³¹ Newidiwyd enw'r cyfranogwyr er cyfrinachedd

Ar ddechrau 2016, cofrestrodd Charlie i hawlio budd-daliadau gan nad oedd neb yn ei deulu yn gweithio ac roedd angen iddo hawlio swm bach er mwyn darparu ar ei gyfer ei hun. Roedd y ddau oedolyn yn y tŷ yn gyfranogwyr Esgyn a heb fod yn gweithio; roedd hefyd gan Charlie chwaer iau yn byw gydag ef gartref.

Cafodd ei annog i fynychu cwrs yr oedd y Ganolfan Waith wedi ei gyfeirio ato yn y diwydiant adeiladu. Mynychodd Charlie y cwrs, a oedd yn cynnwys rhywfaint o ddatblygu sgiliau a gwaith adeiladu tîm. Ar y cam hwn, llwyddodd Charlie i dderbyn cerdyn Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu (CSCS), gyda chymorth Esgyn. Cafodd gymorth hefyd i wneud cais am swydd, a chael cyfweiliad, fel Prentis Gweithiwr Paratoi'r Pridd gyda chwmni yn agos i'w gartref. Yn anffodus, ni chynigwyd Prentisiaeth i Charlie, er iddo baratoi'n dda ar gyfer y cyfweiliad. Unwaith eto, roedd Charlie yn siomedig.

Tra'r oedd ar leoliad gwaith, daeth Esgyn o hyd i gyflogwr ym Merthyr a oedd yn cael trafferth llenwi swydd Twf Swyddi Cymru. Roeddynt wedi hysbysebu swydd wag Technegydd Panel Rheoli ar wefan Gyrfa Cymru, ond heb lwyddo i ddod o hyd i rywun addas. Chwiliai'r cyflogwr am rywun a fyddai â diddordeb mewn bod yn Dechnegydd Rheoli Trydanol hyfforddedig a allai ymgymryd â gwaith gan ddefnyddio Paneli Rheoli Trydanol. Roedd ganddynt contractau mawr yn yr Unol Daleithiau i gynnal a rhedeg cydrannau trydanol ar reidiau ffair.

Cysylltodd Esgyn â'r cyflogwr ac awgrymu y gallai Charlie gael cyfnod prawf o bythefnos i weld a fyddai'n addas i'r rôl. Roedd Charlie hefyd yn awyddus i geisio gwneud argraff ar y cyflogwr ac roedd wedi'i gyffroi gan y syniad o deithio i'r Unol Daleithiau gan nad oedd erioed wedi bod dramor o'r blaen. Yn wir, ychydig iawn o amser a dreuliodd Charlie y tu allan i Dredegwr drwy gydol ei fywyd. Llwyddodd Esgyn hefyd i ddwyn perswâd ar y cyflogwr, petai Charlie yn addas, y gallent gyflogi Charlie ar leoliad gwaith Twf Swyddi Cymru. Cytunodd y cyflogwr i dderbyn Charlie ar leoliad gwaith cychwynnol o bythefnos.

Yn gyflym, llwyddodd Esgyn i drefnu trafnidiaeth Charlie am bythefnos gan gadw cyswllt agos gyda'r cyflogwr yn ystod cyfnod y lleoliad gwaith. Ymhen dim o dro, roedd gwnaeth Charlie argraff ar y cyflogwr, a daethpwyd i gytundeb i drosi'r lleoliad gwaith i fod yn swydd â thâl drwy raglen Twf Swyddi Cymru. Bu Esgyn yn trafod gydag Asiant Rheoli Rhaglen Twf Swyddi Cymru, y Ganolfan Byd Gwaith a'r Cyflogwr a chanlyniad hynny oedd i Charlie ddechrau gweithio am y tro cyntaf yn ei fywyd ym mis Ebrill 2016.

Y tro yn y gynffon yn hanes Charlie yw ei fod bellach wedi teithio i Utah a Florida yn yr Unol Daleithiau ers mis Ebrill 2016 ac ar hyn o bryd y mae yn Universal Studios yn Florida yn gweithio i'r cwmni fel Technegydd Panel Rheoli Trydanol. Ni fyddai ei daith o Dredegar i Universal Studios wedi bod yn bosibl heb y cymorth a roddwyd gan Esgyn i wireddu ei uchelgais, datblygu ei sgiliau a chychwyn ar swydd sydd, yn llythrennol, yn mynd ag ef o amgylch y byd.

Meithrin Sgiliau Cyflogaeth

- 4.37 Mae Mentoriaid fel arfer yn cynorthwyo'r cyfranogwyr i ddatblygu eu sgiliau cyflogaeth drwy eu hannog i gyfranogi mewn lleoliadau gwirfoddoli a gwaith yn ogystal â dilyn cyrsiau hyfforddiant mewn meysydd galwedigaethol.
- 4.38 Mae hefyd gan rai Mentoriaid gyfres o gyrsiau mewnol y gallant eu cyflwyno i'r cyfranogwyr mewn perthynas ag datblygu hyder a sgiliau cyfweliad, ac mae eraill yn defnyddio Clybiau Gwaith Lleol er mwyn cael y math hwn o wasanaeth.

Lleoliadau Gwaith Mewnol

Yn Llanelli, sefydlwyd stondin marchnad yn gwerthu eitemau a wnaed gan bobl sydd ag anawsterau dysgu neu anghenion iechyd meddwl; bu rhai o gyfranogwyr Esgyn yn gwirfoddoli ar y stondin er mwyn gael profiad o fanwerthu mewn amgylchedd sydd wedi'i ddiogelu i raddau. Bu'r stondin yn gymaint o lwyddiant fel y bu i'r awdurdod lleol gymryd y siop gyferbyn i'r ganolfan er mwyn ehangu gwerthiant y cynnyrch.

- 4.39 Wrth chwilio am gyfleoedd, cyfeiriodd y Mentoriaid at bwysigrwydd rheoli disgwyliadau: *'Mae disgwyliadau'r client yn aml yn rhwystro i gael hyfforddiant neu waith. Maent yn ei chael yn anodd deall bod angen sgiliau arnynt i wneud gwaith y maent yn credu y gallant wneud'*.
- 4.40 Dywedir bod rheoli'r gyllideb hyfforddiant yn her gysylltiedig: *'Mae llawer o bobl sy'n disgwyl inni dalu am hyfforddiant sy'n afrealistig... Mae angen inni fuddsoddi mewn pobl i gael hyfforddiant a fydd yn arwain at iddynt gael gwaith'*. Yn sgil gostyngiadau mewn cyllid ar gyfer dysgu i oedolion / cymunedol, dwedir bod hyn wedi cynyddu'r her o ganfod darpariaeth addas mewn lleoliadau llai hygyrch.

- 4.41 Mae gan wahanol ardaloedd cyflenwi wahanol safbwyntiau ar ba gyfleoedd hyfforddiant, gwirfoddoli neu waith sydd ar gael. Yn gyffredinol, roedd y Mentoriaid hynny sy'n seiliedig yn agos at gytrefi yn cyfeirio at ddigonedd o gyfleoedd (gyda rhai yn wynebu anawsterau wrth ddyrannu'r holl gyfleoedd a gyflwynir iddynt). Ond mewn Clystyrau sy'n fwy arunig a gwasgaredig, dywedir mai heriol yw dod o hyd i gyfleoedd addas.

'Mae Tai Rhondda wedi cynnig cyfleoedd adeiladu ond roedd hyn yn rhy bell i ffwrdd i'r rhan fwyaf o gyfranogwyr. Mae Rhondda Cynon Taf yn dri chwm; byddai'n cymryd 1 awr ac 20 munud i gyfranogwr deithio ar fws o un cwm i gwm arall, felly cludiant yw'r rhwystyr mwyaf am mai nifer fach iawn sydd â char.' [Mentor]

Cyfleoedd Gwaith

- 4.42 Mewn rhai ardaloedd (Ynys Môn er enghraifft) bu i dîm Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf a/neu'r adran berthnasol yn yr Awdurdod Lleol chwarae rôl allweddol wrth ganfod cyfleoedd gwaith yn sgil eu cyswllt parhaus â chyflogwyr lleol.

'Mae gan Gymunedau yn Gyntaf yng Nghaergybi Swyddog Ymgysylltu â Chyflogwyr sydd yn gyswllt hanfodol rhwng staff Esgyn a chyflogwyr. Pan fydd yn ei swydd, bydd un aelod o staff yn gyfrifol am alwadau ffôn dilynol er mwyn cynnal y cyswllt, ac mae hyn yn sicrhau y gallwn ailymgysylltu â'r cleient os nad yw'r swydd yn llwyddiannus.' [Mentor]

- 4.43 Mewn ardaloedd eraill, yn Llanelli ac Abertawe er enghraifft, mae'r Mentoriaid eu hunain yn ymgymryd â'r gwaith o gynnal cyswllt â chyflogwyr.

'Maen nhw [cyflogwyr lleol] wedi bod i mewn yn y swyddfa ac wedi siarad gyda chyfranogwyr Esgyn; maen nhw'n gwneud rhyw fath o gyfweliad gyda nhw er mwyn cynyddu eu hyder a rhoi profiad iddynt, ac wedyn pan fyddan nhw'n barod bydd cyfleoedd gwaith ar gael gyda nhw. Mae hefyd gennym gymalau budd cymunedol gyda chyflogwyr.' [Mentor]

'Rydyn ni'n gweithio'n agos iawn gyda chwmnïau adeiladu, rydyn ni'n datblygu cyrsiau gyda nhw, ac wedyn, i'r bobl sy'n mynychu'r cyrsiau, rydyn ni'n darparu cyfleoedd lleoliadau gwaith cysylltiedig.' [Mentor]

- 4.44 Ym mwyafrif yr ardaloedd cyflenwi (pump o'r naw), dywedir nad yw'r cyflogwyr lleol yn ymwybodol eu bod yn recriwtio cyfranogwyr Esgyn. Y rheswm am hyn yw bod y cyfranogwyr fel arfer yn cael swydd drwy'r farchnad agored, fel arfer ar ôl cwblhau lleoliadau gwaith yn llwyddiannus. Yn yr ardaloedd eraill, lle mae'r cyflogwyr lleol yn ymwybodol o Esgyn, mae cyfleoedd lleoliadau gwaith yn dueddol o gael eu cynnig lle y gallai'r cyfranogwyr symud ymlaen i swyddi parhaol gyda'r cyflogwr dan sylw.
- 4.45 Yn gyffredinol, dywedir mai cyfleoedd ym maes adeiladu yw'r sectorau mwyaf poblogaidd i gyfranogwyr Esgyn, ac mae cyfleoedd ym maes gofal ac yn y sector manwerthu hefyd yn boblogaidd.

Cyfleoedd a Frocerwyd yn Genedlaethol

- 4.46 Mae pa mor ddefnyddiol yw cyfleoedd a frocerwyd yn genedlaethol, a'r defnydd a wneir ohonynt, hefyd yn amrywio'n sylweddol o un ardal i'r llall. Yn ôl Clystyrau Esgyn yn Sir y Fflint, llai nag un y cant o'u cyfleoedd a gafodd eu trefnu drwy gytundebau a frocerwyd yn genedlaethol, gan ddweud bod y rhai sy'n cael eu cynnig fel arfer yn anaddas neu'n anhygyrch. Mewn ardaloedd eraill (Gorllewin Taf a Dwyrain Caerdydd, er enghraifft), manteisiwyd yn sylweddol ar y cyfleoedd hyn: *'Mae gennym fwy na digon o gyfleoedd drwy Lywodraeth Cymru – rydym yn canolbwyntio ar y rhai hyn ...mae 99 y cant yn gyfleoedd a gaiff eu cynnig gan Lywodraeth Cymru, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol neu gymdeithasau tai lleol'.*
- 4.47 Mae Tabl 4.2 isod yn cyflwyno ffigurau ar nifer y cyfleoedd a frocerwyd yn genedlaethol a gynigir ac y manteisir arnynt gan bob ardal gyflenwi, gan ddangos yr amrywiad rhwng yr ardaloedd cyflenwi.

Tabl 4.2: Nifer y Cyfleoedd a Frocerwyd yn Genedlaethol a Gynigwyd ac y Manteisiwyd arnynt yn ôl Ardal Gyflenwi Ebrill 2015 - Mawrth 2016³²

Ardal Gyflenwi	AdAS		Tai		Iechyd		Cyfanswm	
	Cynig- wyd	Derbyn- iwyd	Cynig- wyd	Derbyn- iwyd	Cynig- wyd	Derbyn- iwyd	Cynig- wyd	Derbyn- iwyd
Cwm Afan	Amh.	11	20	11	9	0	29	22
Môn	Amh.	0	0	0	13	12	13	12
Ebwy Fawr a Thredegar	Amh.	3	2	2	10	10	12	15
Basn Caerffili a Chwm Rhymni Uchaf	Amh.	1	4	1	7	1	11	3
Dwyrain Caerdydd	Amh.	0	113	60	50	40	163	100
Llanelli	Amh.	0	1	0	16	4	17	4
Dwyrain a Gorllewin Sir y Fflint	Amh.	1	0	0	0	0	0	1
Gorllewin Taf	Amh.	1	42	14	32	32	74	47
Gogledd-orllewin Abertawe	Amh.	1	3	0	9	2	12	3
Cyfanswm	Amh.	18	185	88	146	101	331	207

4.48 Mewn ardaloedd eraill lle'r oedd rhwng 10-20 y cant o'r cyfleoedd yn rhai a frocerwyd yn genedlaethol, caiff y rhain eu trefnu fel arfer drwy sefydliadau penodol: *'Mae tua 20 y cant o'n cleientiaid yn manteisio ar gyfleoedd a nodwyd drwy adrannau Llywodraeth Cymru. Os ydym yn eu cyfeirio at y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, mae sicrwydd y cânt gyfweiliad sy'n llawer o gymorth o ran hyder. Ond ni chawsom lawer o gyfleoedd drwy'r Cymdeithasau Tai'.*

³² Data Dilyn Trywydd Cyfranogwyr Llywodraeth Cymru – noder nad oes data ar gyfleoedd a gynigir gan yr Adran Addysg a Sgiliau; data ar nifer y cyfleoedd y manteisiwyd arnynt yn unig sydd ar gael.

- 4.49 Rhoddodd y Mentoriaid amlinelliad o'r canfyddiad o werth cyfleoedd a frocerwyd yn genedlaethol: *'Dim ond dechrau cyrraedd eleni a wnaeth cyfleoedd drwy Lywodraeth Cymru fel y Gwasanaethau Iechyd Gwladol; bu rhai darparwyr, fel y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, yn araf iawn yn darparu cyfleoedd – ond bydd y cyfleoedd hyn o ansawdd uchel iawn ac yn gyfleoedd da sydd â thâl ac amodau da... cymhelliad go iawn i'n cwsmeriaid gymryd rhan'*.

Astudiaethau Achos

Roedd Jennifer³³ yn gyn-Weithwraig Cymdeithasol a ddaeth yn ddi-waith yn ystod ei brwydr â salwch difrifol. Cafodd y digwyddiadau hyn effaith andwyol ar ei hyder a'i hunan-barch, a nododd fod hyn yn rhwystr sylweddol i ddychwelyd i weithio, a'i hiechyd bellach wedi gwella. Bu Tasha³⁴ yn ddi-waith ers 19 mlynedd, a hithau wedi bod yn gofalu'n amser llawn am ei mab anabl. A'i mab bellach wedi setlo yn y coleg ac yn derbyn cymorth gwasanaethau oedolion, teimlai'n barod i ddechrau ar y broses o ailgychwyn ei gyrfa.

Cymerodd Jennifer fantais o gyrsiau 'sylfaenol' Cymunedau yn Gyntaf Môn, ond cwrs Adeiladu Hyder a Sgiliau Cyfweliad oedd yn ei diddori'n bennaf. Drwy weithio ochr yn ochr â dysgwyr eraill mewn sefyllfaoedd tebyg, i gwblhau gweithgareddau sydd â'r nod o gynyddu hunan-barch, lluniodd Jennifer ei llwybr tuag at hunan-gred. Mynychodd gyfres o ffug-gyfweliadau a derbyniodd adborth a oedd yn gynyddol gadarnhaol. Bu ailadrodd y broses hon yn werthfawr iawn iddi, ac mae Esgyn bellach yn annog pob dysgwr ar y cwrs hwn i fynd i'r sesiwn ffug-gyfweliad cynifer o weithiau â phosibl.

Cefndir ym maes gweinyddu oedd gan Tasha, ond a hithau wedi bod yn ddi-waith am bron i ugain mlynedd, teimlai'r angen i loywi ei sgiliau. Ymgofrestrodd ar gwrs Camau i Lwyddiant: Gweinyddu, lle y cafodd brofiad ymarferol yn nerbynfa Academi Esgyn, a chwblhau cyfres o gymwysterau cyffredinol a rhai sy'n benodol i'r sector, gan gynnwys unedau Agored Cymru ym maes Gweinyddu a Gwasanaeth Cwsmeriaid.

Roedd gan Jennifer a Tasha ddiddordeb mawr yn rhaglen y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Yn gynnar iawn yn y broses, daeth Esgyn i ddeall drwy ein cysylltiadau yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol am swyddi gweinyddol gwag yn yr adran hyfforddiant yn Ysbyty Bryn y Neuadd. Rhoddodd Esgyn gymorth i Jennifer a

³³ Newidiwyd enw'r cyfranogwyr er cyfrinachedd

³⁴ Newidiwyd enw'r cyfranogwyr er cyfrinachedd

Tasha wneud cais am y swyddi hyn, a chynigwyd cyfweiliadau iddynt o dan gynllun sicrwydd cyfweiliad Esgyn / y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Bu i'r holl ffug-gyfweiliadau dalu ar eu canfed, ac o'r hyn a ddwedwyd bu i Jennifer a Tasha ragori.

Gyda chyfanswm o 22 mlynedd heb fod mewn swydd, a thaith hir lle y bu'n rhaid iddynt oresgyn rhwystrau a deimlai'n anorchfygol, cynigwyd y swyddi i Jennifer and Tasha ac ers hynny maent wedi ymgyfarwyddo â bywyd gwaith fel aelodau o staff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Mae gan Esgyn *"falchder arbennig ynddynt ac yn arbennig o ddiolchgar am gymorth eu cydweithwyr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr"*.

Y Gronfa Rwystrau

- 4.50 Caiff y Gronfa Rwystrau ei hystyried gan bawb yn elfen hanfodol o'r hyn a gynigir i gyfranogwyr Esgyn: *'Mae modd ichi ei defnyddio i brynu tocynnau bws ymlaen llaw er mwyn galluogi i unigolion fynd i gyfweiliad'* [Mentor].

'[Mae'r] Gronfa Rwystrau [yn] gwbl allweddol! ... Rydyn ni wedi prynu esgidiau i bobl i weithio yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, dillad ar gyfer lleoliad gwaith, talu am dystysgrifau geni, esgidiau glaw, profion Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu ac ati. Ni allent fod wedi manteisio ar rai o'r cyfleoedd hyn heb y gronfa hon. Mae gennym hyblygrwydd gyda'r gronfa rwystrau.' [Mentor]

- 4.51 Caiff hyblygrwydd y gronfa o ran defnydd a hygyrchedd (gan olygu ei fod yn offeryn ymatebol), ei groesawu gan lawer. Câi'r Mentoriaid drafferth nodi sut byddai modd gwella'r Gronfa Rwystrau, ar wahân i gynyddu faint o arian sydd ar gael. Cyfeiriodd un Mentor at ddymuniad i gynyddu'r hyblygrwydd ymhellach drwy ganiatáu iddo barhau i gael ei ddefnyddio gan y cyfranogwyr yn syth wedi iddynt gael gwaith er mwyn rhoi cymorth iddynt hyd nes eu bod wedi derbyn eu taliad cyflog cyntaf. Ond mewn ardal gyflenwi arall, soniwyd am ddarparu'r gronfa ar ôl i'r cyfranogwyr gael gwaith am yr union reswm hwn: *'Mewn llawer o achosion, rydym yn parhau i ddarparu talebau cinio am yr wythnos gyntaf a chostau teithio am y mis cyntaf'*.

- 4.52 Un pryder a godwyd gan nifer o Fentoriaid oedd bod y Gronfa Rwystrau bellach yn dioddef yn sgil ei llwyddiant ei hun. Roedd y ffaith mai cymharol syml yw cael mynediad at y gronfa o gymharu â gweithdrefnau cymhleth y Canolfannau Gwaith neu Yrfa Cymru ar gyfer adnoddau tebyg, yn golygu bod sefydliadau partner yn dibynnu ar y Gronfa Rwystrau ar gyfer cyfranogwyr Esgyn, neu'n atgyfeirio at y gronfa, yn hytrach na defnyddio eu hadnoddau eu hunain: *'Bydd y Ganolfan Byd Gwaith yn aml yn gofyn inni dalu am bethau drwy ein cronfa rwystrau am ei bod yn broses llawer symlach a chynt na'u proses eu hunain'*. Ymhellach, dyma ddisgrifiad Mentor arall amdani:

'Ar yr ochr negyddol, y mae weithiau'n ymddangos yn gronfa hawdd ei chael, ac y bod cleientiaid yn cael eu hatgyfeirio atom neu'n dod i gyswllt â ni er mwyn cael arian o'r gronfa yn hytrach nag er mwyn derbyn y pecyn cymorth cyfan. Gall pobl gael eu cythruddo pe mynnwn eu bod yn dilyn proses cyn manteisio ar y gronfa a hwythau wedi clywed weithiau y gallant gael cymorth ariannol drwom ni.' [Mentor]

Cymorth Ar Ôl Cael Gwaith

- 4.53 Wedi i gyfranogwr fanteisio ar gyfle, bydd y Mentoriaid fel arfer wedyn yn cysylltu dros y ffôn, er y caiff hyn gan amlaf ei wneud ar sail anghenion. Os yw cyfranogwyr yn llwyddo i gael gwaith, cyfeiria'r Mentoriaid at anhawster mewn cynnal cyswllt â hwy (er bod dull mwy ffurfiol o gymorth mewn gwaith yn achos y cyfranogwyr hynny sy'n cael gwaith drwy Dwf Swyddi Cymru). Anodd iawn fel arfer yw cynnal cyswllt â chleientiaid wedi iddynt ddechrau gweithio ac yn aml byddant yn gweithio oriau tebyg i'r Mentoriaid ac felly nid ydynt yn ymateb i alwadau.

Astudiaeth Achos

Bu Alun ar fudd-daliadau salwch am ryw chwe i saith mlynedd gan ddioddef o amryw broblemau iechyd yn gysylltiedig â diabetes. Soniodd y gymdeithas dai wrtho am gwrs gyda Chymunedau yn Gyntaf ym maes hyfforddiant *'barista a gwasanaeth cwsmeriaid'*. Aeth i ymweld â Chymunedau yn Gyntaf i gael gwybod mwy ond *'nid oeddynt yn siŵr pwy fyddai'n ei ariannu, naill ai hwy neu Esgyn. Felly dyma fi'n mynd i weld [Mentor Esgyn] a chafodd y cwrs ei ariannu gan Esgyn'*. Drwy gwrdd â [Mentor Esgyn], mynychodd Alun y cwrs barista a *'llofnodi'r holl waith papur'*. Roedd hefyd modd i'r [Mentor] roi *'llawer o gyngor [gyrfaoedd]'* i Alun.

Ar ôl cwblhau'r cwrs, cafodd Alun swydd ran amser yn gweithio yn y siop goffi yn y Coleg Addysg Bellach Lleol – *'heb hyfforddiant, fyddwn i heb gael y swydd'*.

Llwyddodd y Mentor hefyd i gael cyllid er mwyn iddo sefyll ei brawf theori gyrru, yn ogystal â CD ymarfer. Ymateb oedd hyn i'r anawsterau teithio a oedd ynghlwm â'r ffaith bod gofyn i farista gychwyn yn gynnar yn y bore: *'Roedd yn cael trafferth cyrraedd y gwaith yn gynnar yn y bore'*.

Y mae bellach yn teimlo'n gwbl barod i weithio ac yn hyderus o ran canfod a chadw swydd. Dywed bod Esgyn wedi ei helpu gyda phopeth: *'Maen nhw'n gwybod ble i fynd a beth i wneud... Maen nhw yno i siarad gyda nhw os oes gennych broblem... rwy'n eu hargymell yn fawr iawn'*.

Integreiddio â Rhaglenni Eraill

Model Esgyn

- 4.54 Roedd model Esgyn yn cydnabod bod ardaloedd Clwstr Cymunedau yn Gyntaf yn elwa o nifer o ymyriadau wedi'u targedu sydd â'r nod o gyfrannu at ganlyniadau tebyg, yn ychwanegol at yr amryw weithgareddau a gyflenwir gan dimau 'Ffyniannus' ym mhob Clwstr. Nod sicrhau bod Esgyn yn cydweddu â'r Clystyrau yw lleihau'r risg o orgyffwrdd, dyblygu neu gystadlu ag ymyriadau eraill.

Safbwyntiau Mentoriaid

- 4.55 Fel a nodwyd yn flaenorol, mae Rhaglen Esgyn yn gweithredu oddi mewn i Glystyrau Cymunedau yn Gyntaf ac felly dylent fanteisio ar y seilwaith y mae Cymunedau yn Gyntaf yn ei ddarparu. Er hyn, y mae Esgyn hefyd yn ddibynnol iawn ar sefydliadau a darparwyr gwasanaeth eraill sy'n gweithredu yn yr ardaloedd er mwyn nodi cyfranogwyr ac ymgysylltu â hwy. Mae Mentoriaid yn gweithio gyda chyfranogwyr sydd â rhwystrau lluosog i weithio ac sydd felly angen cymorth priodol i'w helpu i oresgyn y rhwystrau hyn yn y ffordd orau. Gyda'i gilydd, mae sicrhau bod Esgyn wedi'i hintegreiddio'n effeithiol gyda darpariaeth gwasanaethau eraill yn ffactor allweddol yn llwyddiant y rhaglen.

Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf

- 4.56 Caiff timau Esgyn gymorth rheoli llinell gan Reolwyr y Clystyrau ym mwyafrif yr ardaloedd, ac felly mae'r rhan fwyaf o dimau Esgyn wedi'u hintegreiddio'n agos â thimau Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r Clystyrau yn cynnig llwybrau defnyddiol i allu ymgysylltu (fel a amlinellwyd yn flaenorol) ond y maent hefyd yn cynnig mynediad defnyddiol at ddarpariaeth dysgu a chyfleoedd gwaith.

- 4.57 Fodd bynnag, er bod mwyafrif timau Esgyn yn elwa o lwybrau atgyfeirio da a manteisio ar ddigwyddiadau presennol, mewn lleiafrif o ardaloedd ychydig y mae timau Esgyn yn elwa o'u Clwstwr, yn bennaf (yn ôl yr hyn a ddwedwyd) ar sail perthynas rhwng unigolion.

Cymunedau am Waith

- 4.58 Mynegwyd pryder gan dimau Esgyn yn sgil lansio Cymunedau am Waith³⁵ yn holl Glystyrau Cymunedau yn Gyntaf, sydd â'r nod o gynyddu cyflogadwyedd (a chyflogaeth) oedolion sydd â rhwystrau cymhleth i weithio, ar sail y posibilrwydd y cânt eu gwthio i'r ymylon (o ystyried tebygrwydd yr ymyrraeth a maint cymharol Cymunedau am Waith o gymharu ag Esgyn). Roedd pryderon yn arbennig o amlwg ymysg y Mentoriaid a oedd â pherthynas wannach â'u Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf: *'Mae'r Ganolfan Waith hefyd yn adeiladu llwyth achosion o bobl a allai fod yn gymwys i gael cymorth gan Esgyn, yn barod i'w drosglwyddo i dim Cymunedau am Waith, felly dyma pam nad ydynt yn atgyfeirio unrhyw un atom ni. Pam? Am eu bod eisiau i Gymunedau am Waith fod yn llwyddiannus'* [Mentor].
- 4.59 Ar adeg cynnal y cyfweiliadau, roedd Rhaglen Cymunedau am Waith yn ei chyfnod sefydlu, ac ar waith â recriwtio staff, felly roedd yn anodd i Fentoriaid Esgyn gynnig safbwynt cytbwys ar effaith y Rhaglen. I hwyluso'r broses hon o atgyfeirio, mae Swyddogion Brysbennu eisoes wedi'u penodi mewn rhai ardaloedd (ar adeg cynnal y cyfweiliadau) ac mae ganddynt gyfweiliadau wythnosol ynglŷn â dyrannu darpar gyfranogwyr:

'...Yn syml, mae gennych dair Rhaglen yn cydweddu â'i gilydd sy'n gweithio yn y gymuned, ac yn gweithio gyda meini prawf cymhwysedd ychydig yn wahanol – gallant ddisgyn i mewn i ba bynnag un sy'n fwyaf addas i'w meini prawf. Mae tair rhaglen ar wahân sydd â thri chynllun cyflenwi ar wahân, ond rydym oll yn gweithio yn yr un gymuned felly'r uchelgais yw eu bod oll yn cydweithio er budd gorau'r cyfranogwr; nid ydynt yn cystadlu â'i gilydd, maent yn ategu ei gilydd.' [Mentor]

³⁵ <http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/communities-for-work/?lang=cy>

‘Mae bod yn yr un adeilad (â Chymunedau yn Gyntaf) yn helpu hefyd, mewn gwirionedd, oherwydd os ydym ni fel Mentoriaid yn ei chael yn anodd gwybod ble i roi rhywun, gallwn fynd i lawr i’r swyddfeydd a’u hymgofrestru ar gyrsiau sydd ganddynt ar y gweill. Felly rydym yn mynd i’r afael â chymaint o gamau a nodau y cytunwyd arnynt y maent eisiau eu cyflawni ychydig ar y tro. Felly mae cael y cyswllt hwnnw â Chymunedau yn Gyntaf yn y ddwy ardal, a’r tîm Teuluoedd yn Gyntaf y gweithiwn yn agos ag ef, yn wych, oherwydd gyda’r broses o draws-atgyfeirio, rydym yn gwybod â phwy i gysylltu. Unwaith iddynt gael eu hatgyfeirio, mae’r cymorth yn cychwyn.’ [Mentor]

4.60 Cynhaliwyd grŵp ffocws gyda thîm rheoli Rhaglen Esgyn ym mis Gorffennaf 2016 ar ôl i Gymunedau am Waith ddechrau cyflenwi. Yn ôl yr arwyddion cychwynnol, mae cynnydd pendant yn nifer yr atgyfeiriadau a ddaw drwodd at Esgyn ar ôl i Gymunedau am Waith gael ei lansio. Y canfyddiad presennol yw y gallai hyn fod yn seiliedig ar y cynnydd yn yr adnoddau sydd ar gael a’r cymorth cyflogadwyedd y mae Cymunedau am Waith yn ei gynnig yn sgil hynny.

4.61 Mae rhaglenni eraill sydd o bwys i Esgyn yn cynnwys Twf Swyddi Cymru, a chyfeiriodd Mentoriaid eraill at Yrfa Cymru³⁶ a Dechrau’n Deg.³⁷

Safbwyntiau Cyflogwyr ar Raglen Esgyn

4.62 Mae’r cyflogwyr a gyfrannodd at y gwaith ymchwil yn cynnwys canolfan gymuned, mentrau cymdeithasol, dwy gymdeithas dai a phedwar cwmni adeiladu. Roedd llawer felly eisoes yn ymwneud â gweithgareddau sy’n gysylltiedig â’r gymdeithas gan adlewyrchu ethos/ymagwedd eu sefydliad. Fel arfer, deuai’r cyflogwyr yn ymwybodol o Raglen Esgyn drwy gyswllt blaenorol â gweithgarwch datblygu cymunedol:

‘Os oes unrhyw gynlluniau yn yr ardal lle’r ydym yn gweithio, ceisiwn fod yn rhan ohonynt. Caiff rhaglen Esgyn Caerdydd ei redeg gan Gymdeithas Tai Cymuned Caerdydd felly es i’w gweld nhw i weld a oedd modd inni gydweithio a dyma nhw’n dweud y gallent ddarparu cyfranogwr i gael profiad gwaith yn ddi-dâl.’
[Cyflogwr]

³⁶ <https://www.careerswales.com/cy/>

³⁷ <http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/parenting-support-guidance/help/flyingstart/?lang=cy>

- 4.63 Cysylltwyd ag eraill naill ai gan frocer Esgyn, yr Awdurdod Lleol neu Lywodraeth Cymru.

‘Roeddem yn gweithio ar gontract i Gyngor Sir Caerfyrddin a dyma nhw’n gofyn inni a allem ddarparu lleoliad gwaith ar gyfer pythefnos o leoliad gwaith, a gwnaethom hynny. Ychydig yn ddiweddarach roeddem yn gweithio ar brosiect gwahanol yn Llanelli a dyma ni’n eu ffonio a gofyn a oeddynt eisiau inni wneud hyn eto, a chawsom ein cyfeirio at Esgyn.’ [Cyflogwr]

- 4.64 Roedd yn gyffredin i’r ymatebwyr ddweud bod enw da’r Rhaglen yn y gymuned, yn ogystal ag ansawdd y cynnig i’r rhai y bwriadai’r Rhaglen eu cyrraedd, yn brif ffactorau yn eu penderfyniad i chwarae eu rhan. Cyfeiriodd rhai hefyd at frwdfrydedd ac angerdd broceriaid Esgyn fel ffactor a’u hysgogodd: *‘Roedd yn taro tant, am fod y cymorth hwnnw yn llawer gwell o gymharu â rhaglenni eraill yr ydym wedi gweithio gyda nhw... Mae Esgyn yn gweithio gyda phobl sydd â’r angen mwyaf, ac mae hynny’n apelio ataf i’* [Cyflogwr].

- 4.65 Roedd mwyafrif y cyflogwyr a gyfwelwyd wedi cynnig rhyw fath o brofiad gwaith i gyfranogwyr Esgyn. Yn y rhan fwyaf o achosion, sefydlwyd y cyfleoedd hyn gyda’r bwriad o baratoi ac asesu’r ymgeisydd ar gyfer rôl mwy parhaol â thâl.

‘Yn syml, rydym yn cymryd rhywun ar sail wirfoddol; mae’n gyfle inni weld a ydynt yn hoffi’r gwaith, ac os ydym yn credu y byddant yn iawn yn y pen draw byddwn yn cynnig contract gwaith iddyn nhw.’ [Cyflogwr]

‘Y math o gyfleoedd y gallwn gynnig yw cynorthwyydd gofal dan hyfforddiant, cynorthwyydd bwyd ar leoliad – felly’r rolau a delir fesul awr fel gofal, domestig, cegin ac ati. Cyfleoedd di-dâl ydynt, sy’n rhoi’r cyfle i bobl weld a ydynt yn hoffi’r rôl ac yn rhoi syniad i ni o’r sgiliau sydd ganddynt. Os yw cyfnod prawf yn llwyddiannus, gallai arwain at swydd barhaol, ond hyd yn oed os nad oes swyddi gwag, bydd yr unigolyn yn dal i fod wedi dysgu sgiliau newydd a byddwn yn eu rhoi ar wahanol gyrsiau hyfforddiant, felly mae’n dal i fod yn fuddiol iddyn nhw.’ [Cyflogwr]

Astudiaeth Achos: Ein Clwb mewn partneriaeth â Rhaglen Esgyn

Rhaglen hyfforddiant bwrpasol yw Ein Clwb sy'n cynorthwyo yn y cyfnod pontio o fod yn ddi-waith i ddatblygu gyrfa gynaliadwy. Crewyd y rhaglen ar y cyd rhwng Morrisons a'r Centre of Coaching Excellence.

Mae Ein Clwb yn darparu hyfforddiant datblygu personol ar draws pedwar maes – sgiliau cyflogaeth, sgiliau bywyd, cymuned, ac iechyd a lles, sydd wedi'u dylunio i ysbrydoli newid yn y rhai sy'n cymryd rhan. Dysgu yn y gweithle sy'n sylfaen iddo, wrth i'r cyfranogwyr dreulio pedair wythnos o'r cwrs chwe wythnos ar leoliad profiad gwaith gyda chyflogwyr lleol.

Mae rhaglenni Ein Clwb bob amser yn seiliedig mewn prif gyfleuster chwaraeon, a lansiwyd Ein Clwb ym mis Ionawr 2016 yn Stadiwm Liberty, Abertawe, gan gynnwys 23 o gyfranogwyr Esgyn o ardaloedd Esgyn Sir Gaerfyrddin, Cwm Afan ac Abertawe.

Cychwynnodd y rhaglen â phythefnos o hyfforddiant cyflogadwyedd yn Stadiwm Liberty, ac yn dilyn hynny, cafwyd pedair wythnos o brofiad gwaith gyda phum cyflogwr lleol – Morrisons, DVLA, Wheelies, William Hill a Thai Gwalia, a ddarparai leoliadau gwaith mewn nifer o leoliadau ledled y tair ardal gyflenwi.

Daeth y rhaglen i ben gyda Digwyddiad Graddio yn Stadiwm Liberty ar 18 Chwefror, lle y cyflwynwyd tystysgrif o gyflawniad i bob cyfranogwr, a chawsant gydnabyddiaeth am y cynnydd a wnaethant. Cwblhawyd y rhaglen gan 19 o'r 23 o gyfranogwyr, a llwyddodd wyth ohonynt i gael swydd o ganlyniad i fod yn rhan o'r rhaglen, ac mae nifer o'r cyfranogwyr eraill yn dal i dderbyn cymorth drwy Raglen Esgyn.

- 4.66 Pam ofynnwyd am natur y cyfleoedd a ddarparwyd, ymateb pennaf yr ymatebwyr oedd bod y cyfleoedd a dderbyniodd cyfranogwyr Esgyn wedi'u creu'n arbennig mewn ymateb i'r Rhaglen. Roedd lleiafrif o'r cyflogwyr wedi dargyfeirio cyfleoedd a oedd ganddynt eisoes, a allai fod wedi mynd i'r farchnad agored, ar gyfer cyfranogwyr Esgyn:

'Yn gyffredinol, byddai'r cyfleoedd hyn wedi bod ar gael drwy lwybrau eraill a byddai unrhyw swyddi â thâl wedi cael eu rhoi ar y farchnad agored, ond a fyddai cyfranogwyr Esgyn wedi ymgeisio am y swydd a'i chael? Mwy na thebyg na fyddent, heb ymyrraeth Esgyn.' [Cyflogwr]

Recriwtio Cyfranogwyr Esgyn

- 4.67 Meddai mwyafrif y cyflogwyr a gyfwelwyd i gyfranogwyr Esgyn gael eu recriwtio mewn fersiwn symlach o'u proses recriwtio arferol, gan gydnabod yr heriau y mae cyfranogwyr Esgyn fel arfer yn eu hwynebu. Gwahodd cyfranogwyr Esgyn i gyfweliad 'anffurfiol' neu 'ffug' oedd y dull mwyaf cyffredin:

'Mae'r cyfweliad yn fersiwn symlach o'r hyn y byddem yn gwneud ar gyfer swydd barhaol.'

'Roeddem yn defnyddio cyfweliad anffurfiol a oedd yn gyfle imi gael syniad o'u hymrwymiad a'u cymhwysedd.'

- 4.68 Ar y llaw arall, meddai un cyflogwr iddynt ddefnyddio proses ddethol arferol, gan fod gofyn iddynt weithredu â thryloywder wrth recriwtio:

'Mae'n rhaid inni fod yn agored a thryloyw wrth recriwtio felly fe wnaethon ni hysbysebu'r swydd a bu i Esgyn froceru'r cyfle gwaith i Alison a hi oedd yr ymgeisydd gorau felly cafodd gynnig y swydd. Gwn fod Esgyn wedi rhoi llawer o gymorth iddi baratoi at y cyfweliad ac ati.'

- 4.69 Wrth ystyried sut y caiff ymgeiswyr eu dethol ar gyfer cyfleoedd gwaith, rhoddodd rai cyflogwyr safbwynt cadarnhaol iawn:

'Nid anfon pawb a phob un atom a wnân nhw; anfon y rhai y maen nhw'n credu a fydd yn llwyddo yn unig a wnân nhw, sy'n beth da.'

'Os ydyn nhw'n gwybod bod Asda yn recriwtio, byddan nhw'n ceisio cynnig sgiliau manwerthu er mwyn cyd-fynd â'r cyfle gwaith hwn.'

- 4.70 Mewn achosion eraill, mynegwyd pryderon ynglŷn ag ansawdd yr atgyfeiriadau yn sgil profiadau negyddol gyda chyfranogwyr:

'[Mae angen iddyn nhw] fod yn fwy gofalus wrth ddethol cyfranogwyr ar gyfer swydd... nid yw'n gweithio pan fyddwch chi'n gosod unrhyw un mewn unrhyw rôl; mae'n rhaid iddyn fod eisiau gwneud y gwaith.'

- 4.71 Meddai rhai cyfranogwyr hefyd y byddent yn dymuno gallu cynorthwyo nifer fwy o unigolion sy'n cael trafferth, ond nid oeddynt yn derbyn digon o ymgeiswyr:

'Ni welwn gymaint o ymgeiswyr yn dod drwy Esgyn â'r hyn oeddem yn disgwyl. Dwn i ddim a yw hyn am nad yw pobl yn cael eu talu am y cyfleoedd neu am nad yw staff Esgyn yn ddigon rhagweithiol wrth recriwtio.' [Cyflogwr]

'Rwy'n tybio [y gallai Esgyn gael ei wella] o ran niferoedd ... Nid yw pawb yn gymwys i gael cymorth, sy'n drueni.'
[Cyflogwr]

Profiad Cyflogwyr o Gyfranogwyr Esgyn

- 4.72 Yn gyffredinol, cafodd y cyflogwyr a gyfwelwyd brofiadau cymysg gyda chyfranogwyr Esgyn, er y dylid nodi, mewn rhai achosion, y teimlai rhai cyflogwyr ei bod yn rhy gynnar iddynt roi barn. Roedd profiadau negyddol yn seiliedig yn bennaf ar absenoldeb, cyrraedd yn hwyr ac agwedd wael.

'Ddim yn wych...Dechreuodd gyrraedd yn hwyr neu beidio â chyrraedd o gwbl felly siaradais â [Mentor] yn Esgyn ac esbonio'r sefyllfa gan ddweud ein bod yn ystyried ei gollwng ond doedden i wir ddim eisiau i hynny ddigwydd. Penderfynodd [Mentor] a mi y byddem ill dau yn cyfathrebu â hi... fel y gallem esbonio'r sefyllfa... Ymddiswyddodd.'

'Dim ond un a ddaeth yma ar leoliad gwaith ond roedd ganddo broblemau personol. Nid oedd Esgyn wedi ein gwneud yn ymwybodol o'r rhain a dechreuodd beidio â dod i'r gwaith.'

'Lle y bo'n bosibl, rwy'n credu y dylai Esgyn feddwl am rwystrau fel teithio, arian ac ati, a cheisio cael lleoliadau gwaith lle y gall pobl gerdded yno neu gyrraedd yn hawdd gyda thrafnidiaeth gyhoeddus. Fe weithion ni gyda chynllun arall ac roedd eu holl gyfranogwyr yn byw yn agos i'r safle felly roedd eu presenoldeb yn well a hefyd, gan eu bod yn gweithio yn eu hardal nhw, roedd balchder yno hefyd.'

- 4.73 Er bod rhai cyflogwyr yn sôn am brofiadau cymysg, meddai bron i bob cyflogwr y byddent yn argymhell i sefydliadau tebyg gymryd rhan yn Rhaglen. Ym mron i bob achos, priodolwyd yr ymateb hwn i'r cymhelliannau 'clodwiw' sy'n sail i Raglen Esgyn, ac sy'n cyd-fynd â'u gwerthoedd sefydliadol eu hunain.

'Fel cymdeithas dai, rydym yn awyddus i roi'n ôl i'r gymuned. Mae ein tenantiaid yn nodweddiadol o gyfranogwyr Esgyn ac mae unrhyw beth a all eu cynorthwyo i wneud cynnydd yn beth da yn ein barn ni.'

'Mae'n syniad rhagorol. Rwy'n cofio dychwelyd i weithio ar ôl i mi gael plant a pha mor ofnus oeddwn i. Yr unig gymorth oedd ar gael imi oedd y Ganolfan Waith felly rwy'n credu bod Esgyn yn gyfle gwyhych i bobl i gael cymorth go iawn i ddychwelyd i weithio.'

Profiad Cyflogwyr o Dîm Cyflenwi Esgyn

- 4.74 Teimlai rhai cyflogwyr fod ganddynt 'berthynas dda' gyda'u brocer, ond mynegai eraill rwystredigaeth ynglŷn â faint o gyswllt oedd, ac ansawdd y cyswllt.
- 4.75 Mae'n ymddangos bod y rhan fwyaf o'r cyfathrebu yn ysgafn a chaiff ei wneud fel arfer dwy sgysiau ffôn. Fodd bynnag, ymateb cyffredin gan gyflogwyr oedd yr awydd i Fentoriaid fod yn fwy 'rhagweithiol' yn y modd y maent yn ymgysylltu â chyflogwyr i sicrhau bod y berthynas a sefydlir rhwng broceriaid Esgyn a busnesau yn parhau i gyrraedd nodau'r Rhaglen. Fel y pwysleisiodd un ymatebydd, 'Mae angen i esgyn gyd-fynd ag anghenion y cyflogwr – ni allant ddisgwyl i'r cyflogwr gyd-fynd â'u hanghenion hwy'.

'Credaf y gallai Esgyn fod yn fwy rhagweithiol... Efallai y gallai Esgyn fod â mwy o reolaeth o bwy sy'n dal i chwilio am waith, ond hefyd gwybod pwy sydd wedi cael swydd fel bod modd inni eu tynnu oddi ar ein rhestr o gyfleoedd profiad gwaith posibl.'

'Ni wnaed argraff arnaf am ei bod yn ymddangos bod diffyg trefniadaeth nodedig... Mewn gwirionedd, petai staff Esgyn wedi bod yn fwy trefnus, gallem fod wedi cynnig cyfres o leoliadau gwaith.'

- 4.76 Yn fwy cyffredinol, meddai'r ymatebwyr hefyd bod diffyg cyfathrebu yn fewnol ac allanol, yn ogystal â diffyg gwybodaeth am y Rhaglen yn benodol:

'Rwy'n credu y byddai o gymorth petai cyflogwyr yn deall mwy am y broses o sut mae Esgyn yn recriwtio cyfranogwyr, sut maen nhw'n dod at Esgyn, beth sy'n digwydd iddyn nhw ac ati. Byddai dealltwriaeth o'r broses a'r cefndir yn helpu cyflogwyr i chwarae mwy o ran.'

'Pan holais am Esgyn ar y dechrau, rhoddwyd taflen imi; rwy'n credu y byddai'n braf petai'r gwasanaeth yn fwy personol. Credaf y byddai rhagor o gyflogwyr yn helpu petai brocer Esgyn yn ymweld â nhw'n bersonol ar y safle.'

- 4.77 Gofynnwyd i'r cyflogwyr hefyd ba elfennau o fodel Esgyn yr oeddynt yn eu hystyried yn hanfodol i lwyddiant y Rhaglen. Pwysleisient natur un-i-un, bwrpasol y cymorth sy'n cynnig hyblygrwydd i'r unigolyn, yn ogystal ag ymroddiad y broceriaid:

'Roedd gennym un ymgeisydd a ddaeth o Esgyn ac a oedd yn gwneud profiad gwaith, ac roeddem yn ei baratoi at gyfweiliad ond roedd ganddo dyllau yn ei esgidiau. Siaradais â [Mentor] a phrynwyd esgidiau iddo fel ei fod yn daclus yn y cyfweiliad swydd. Cafodd y swydd.'

- 4.78 Caiff agwedd gyffredinol y cyflogwyr tuag at Raglen Esgyn ei adlewyrchu yn y sylw canlynol: *'mae egwyddor y prosiect yn wych, felly mae'n bwysig iawn gwella'r broses i sicrhau bod cyflogwyr yn parhau i fod â ddiddordeb i'w gefnogi'*.

Ymhellach, ystyriwyd mai profiad cadarnhaol ar y cyfan fu ymwneud â'r Rhaglen:

'Credaf fod y Rhaglen wedi cychwyn deialog a pherthynas â chyflogwyr, sy'n beth gwyb; mae angen inni sicrhau y caiff y momentwm ei gynnal'.

- 4.79 Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod awydd clir yn parhau ymysg cyflogwyr i ymwneud â Rhaglen Esgyn, ynghyd â synnwyr cryf o ymrwymiad i ethos y Rhaglen. Cyflwynwyd ymatebion yr holl gyflogwyr mewn ffordd adeiladol a ddaliai'r ysbryd o bartneriaeth sy'n bodoli. Fodd bynnag, y maent yn pwysleisio awydd am fwy o ryngweithio a rhagweithio gan y staff cyflenwi er mwyn hybu llwyddiant y Rhaglen.

5. Archwilio Safbwyntiau Cyfranogwyr ar Ymgysylltu, Gweithgareddau a Theithiau

Cyflwyniad

- 5.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno safbwyntiau ar Raglen Esgyn gan gyfranogwyr a fu'n ymwneud â'r Rhaglen am lai na chwe mis (hyd mis Ionawr 2016). Mae'n canolbwyntio ar eu llwybrau ymgysylltu a'u taith gychwynnol drwy'r Rhaglen. Casglwyd eu safbwyntiau drwy arolwg ffôn³⁸ a gafodd adborth gan 105 o gyfranogwyr Esgyn.

Cyswllt Cyfranogwyr

- 5.2 Holwyd y cyfranogwyr hynny a ymatebodd i'r arolwg ffôn sut y daethant yn ymwybodol gyntaf o Raglen Esgyn: cafodd ychydig dros draean (37 o ymatebwyr) eu hatgyfeirio gan eu Canolfan Waith leol; clywodd 15 o'r ymatebwyr am y rhaglen ar lafar; ac roedd ffynonellau eraill o ymwybyddiaeth (21 o ymatebwyr) fel arfer yn gysylltiedig â chael eu hatgyfeirio drwy Gymunedau yn Gyntaf neu weithgarwch yn gysylltiedig â Chymunedau yn Gyntaf fel ffeiriau swyddi neu glybiau gwaith.
- 5.3 Roedd amrywiaeth o resymau ysgogol i ymgysylltu ag Esgyn. Mae'r rhain wedi'u codio a'u cyflwyno yn Nhabl 5.1 isod. Un agwedd bwysig yw'r rôl y teimlai'r cyfranogwyr y gallai Esgyn chwarae wrth eu helpu i gael gwaith ac ariannu hyfforddiant a chymwysterau. O'r rhai a gyfeiriodd yn benodol at gael swydd fel eu nod yn y pen draw, roedd 15 yn ystyried Esgyn yn gam tuag at gyflogaeth, ac meddai naw mai cael swydd â thâl oedd ei hamcan ar unwaith.

'Roeddwn eisiau ennill cymwysterau i'w rhoi ar fy CV er mwyn imi gael gwaith. Wnes i ddim llawer yn yr ysgol felly roedd angen rhywbeth arnaf i.'

'Dim ond clywed wnes i y gall [Esgyn] helpu pobl i gael gwaith neu wneud cyrsiau.'

Bu i rai cyfranogwyr gofrestru ar Raglen Esgyn heb syniad penodol o'r hyn yr oeddent eisiau ei gael ohoni.

³⁸ Gweler Pennod 3, tt.18-19. Hefyd sgript yr arolwg yn Atodiad 2, tt. 87-73.

Tabl 5.1: Dyheadau ymatebwyr o gyfranogi gydag Esgyn (Cwestiwn 9, Ymateb Lluosog wedi'i Godio)

Pan ddechreuoch ymwneud â rhaglen Esgyn, beth oeddech yn gobeithio ei gael ohoni?	n
Hyfforddiant/cymwysterau	40
Cam tuag at gael swydd	15
Ddim yn gwybod	14
Lleoliad gwaith / cyfle i wirfoddoli	13
Swydd â thâl	9
Cymorth i chwilio am swydd	8
Arall	7
Help gyda CV	7
Cerdyn Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu	5
Ymarfer cael cyfweiliad	2
Llythrennedd a rhifedd	2

Sylfaen: 105 o ymatebion (arolwg ffôn, Mehefin-Gorffennaf 2016)

Safbwyntiau Cyfranogwyr ar Gymorth Esgyn

- 5.4 Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddisgrifio'r mathau o gymorth a chyngor a gawsant gan eu Mentor. Gallai llawer ddisgrifio amryw elfennau o gymorth er mai'n gymharol ddiweddar yn unig yr oeddynt wedi ymwneud â'r Rhaglen; mae enghreifftiau yn cynnwys cymorth i gael hyfforddiant, ennill cymwysterau, a chreu neu adolygu CV. Roedd llawer o'r cyfranogwyr hefyd wedi bod ar leoliadau gwaith a drefnwyd gan eu Mentor, yn ogystal â chael cymorth i chwilio am waith gyda thâl a chael gwaith.

'Mi wnes gyfarfod â [Mentor], dangosais fy CV iddi a sôn am yr hyn yr oeddwn eisiau gwneud. Rydan ni wedi bod yn cwrdd yn rheolaidd, mae hi'n wych. Mae wedi diweddarau fy CV; rydw i wedi bod ar dri neu bedwar cwrs; mae wedi gwneud ffug-gyfweliadau gyda mi. Rydan ni wedi gwneud ceisiadau swydd gyda'n gilydd. Aeth drwy'r holl gwestiynau y mae'r rhan fwyaf o gyflogwyr yn gofyn ichi, mae gen i gyfweliad gyda'r cyngor cyn hir, swydd weinyddol mewn swyddfa ac rwy'n [teimlo'n] go hyderus.' [Cyfranogwr Esgyn]

- 5.5 Roedd y cyfranogwyr hefyd yn cydnabod y rôl mae Mentoriaid yn ei chwarae wrth oresgyn rhwystrau personol (ymarferol yn aml) i fanteisio ar gyfleoedd.

‘Cefais gymorth [fy Mentor] gyda’r gwaith papur [a] daeth o hyd i le gwirfoddoli imi [mewn cartref gofal]. Bu’n rhaid iddi fy ngyrru yno oherwydd y gwasanaeth bws gwirion. Mae’n mynd i fy helpu i ddarllen amserlen y bysus, er mwyn i mi allu cyrraedd yno ar fy mhen fy hun.’ [Cyfranogwr Esgyn]


‘Doeddwn i ddim yn gallu cael ar gyrsiau am nad oedd gen i ID â llun... Gwnaeth gais ar fy rhan i gael trwydded yrru dros dro, felly bydd [un] gen i’n awr...Maen nhw’n wych.’ [Cyfranogwr Esgyn]

Safbwyntiau Cyfranogwyr ar eu Pellter o’r Farchnad Lafur

- 5.6 Gofynnwyd i’r cyfranogwyr ddweud ba mor bell y maent yn teimlo o allu dod o hyd i swydd cyn derbyn cymorth drwy Esgyn. Cyflwynir dosbarthiad yr ymatebion yn Ffigur 5.1 isod. Roedd y rhain wedi’u gwasgaru’n gymharol wastad, er i’r gyfran unigol uchaf (18 o ymatebwyr) roi sgôr o 0 i’w hyder (heb fod yn agos o gwbl i fod yn barod i weithio), gan awgrymu bod y Rhaglen yn cyrraedd ei phoblogaeth darged.

Ffigur 5.1: Sgoriau’r ymatebwyr ar eu canfyddiad o bellter o’r farchnad lafur cyn ymwneud ag Esgyn (Cwestiwn 5)

Cwestiwn 5: Ar raddfa o 0-10, dwedwch wrthym ba mor agos neu bell yr oeddech yn bersonol yn teimlo'r oeddech o allu dod o hyd i swydd cyn ichi ddechrau derbyn cymorth drwy Raglen Esgyn? (0 heb fod yn agos o gwbl a 10 yn barod i weithio)



Sylfaen: 105 o ymatebion (arolwg ffôn, Mehefin-Gorffennaf 2016)

- 5.7 Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd ddisgrifio eu sefyllfa bresennol. Roedd y rhan fwyaf yn ddi-waith ac yn chwilio am waith (73). O'r gweddill, roedd 13 mewn rhyw fath o swydd (naill ai amser llawn neu ran amser), roedd naw yn ddi-waith yn sgil salwch hirdymor neu anabledd, ac roedd wyth mewn sefyllfaoedd eraill heb eu cynnwys uchod, fel gofalu am anwylyd, neu'n aros i gychwyn ar rôl neu hyfforddiant newydd.

Tabl 5.2: Disgrifiad ymatebwyr o'u sefyllfa gyflogaeth bresennol.

Cwestiwn 4: Beth yw eich sefyllfa bresennol? (ticiwch bob un sy'n berthnasol)	N
Di-waith – Chwilio am waith	73
Di-waith – Salwch hirdymor	9
Arall	8
Gweithio amser llawn	7
Gweithio rhan amser	6
Rhiant sy'n aros gartref	1
Gwirfoddoli	1

Sylfaen: 105 o ymatebion (arolwg ffôn, Mehefin-Gorffennaf 2016)

- 5.8 Holwyd yr ymatebwyr ynglŷn â'r prif heriau sy'n eu hwynebu wrth chwilio am waith. Cyfeiriwyd droeon at ddiffyg hyder yn eu galluedd, methu â fforddio gofal plant, a pheidio â meddu ar ddigon o gymwysterau, neu'r cymwysterau cywir.
- 5.9 Meddai rhai ymatebwyr bod y ffaith eu bod yn hŷn hefyd wedi eu hatal rhag manteisio ar gyfleoedd sy'n codi drwy'r Rhaglen, yn ogystal â chael gwaith. Mewn rhai achosion, mae ansicrwydd ynglŷn ag oed yn dwysáu eu diffyg hyder. Roedd problemau iechyd sydd fel arfer yn gysylltiedig â bod yn hŷn hefyd yn fwy cyffredin ymysg y grŵp hwn.

'Dydw i ddim wedi gwneud unrhyw gyrsiau. Dwn i ddim a yw llawer o bobl fy oed i yn gwneud cyrsiau a dydw i ddim yn rhy dda mewn torfeydd na chyda dieithriaid...Rwy mewn poen cyson gydag arthritis a ffibromyalgia, mae gwaelod fy asgwrn cefn yn treulio.' [Cyfranogwr, 55 oed]

'Rwyf wedi bod yn ddi-waith ers tro; rwy'n credu bod fy oedran yn gweithio yn fy erbyn, rwy'n 51 oed... [Mae gen i] arthritis yn fy migwrn. Oherwydd fy oedran, mae dod o hyd i waith wedi bod yn broblem.'

'Rwy'n credu mai'r bwlch yn fy CV a fy oedran (36) sy'n golygu nad yw pobl eisiau rhoi swydd imi.'

- 5.10 I rai unigolion, nodwyd bod gofalu am ddibynyddion hefyd yn rhwystro i symud yn agosach at weithio.

'Doeddwn i ddim wedi gweithio am saith neu wyth mlynedd gan imi fod yn gofalu am fy mam yng nghyfraith. Mi wnes i wahanu oddi wrth fy ngŵr felly doeddwn i ddim yn gofalu am ei fam mwyach. Mi fûm i'n gofalu am flynyddoedd, heb fod yn cymdeithasu, ac roeddwn i'n ddifrifol o isel fy ysbryd.'

'Am imi fod yn ofalwr amser llawn am fy merch, doedd gen i ddim byd arall yn fy mywyd, felly byddai swydd yn rhoi imi fy annibyniaeth.'

Astudiaeth Achos

Cafodd dynes 50 oed, Joanne³⁹, ei hatgyfeirio at Esgyn yn y lle cyntaf mewn digwyddiad yn y Ganolfan Waith leol yng nghanol mis Mai 2016. Gwaith ar dasg fel gweithiwr cartref oedd ei swydd ddiwethaf, ac ar sail ad hoc, tua 2000. Cyn i gymwysterau ddod yn rhan hanfodol o godi safonau yn y Sector Gofal, roedd gan yr unigolyn hon swydd gyda chyflogwr lleol a ddaeth i ben ym 1997. Nid oes cofnod o unrhyw swydd arall. Roedd ei haddysg ysgol yn cynnwys naw o leoliadau gwahanol gan fod ei thad yn y lluoedd arfog, a bu i hyn gael rhywfaint o effaith.

Cyfyngedig oedd cefndir teuluol Joanne. Bu farw ei mam ac yn ddiweddar cafodd ei thad (sydd bellach yn byw dramor) ddiagnosis o ganser ac nid oedd modd cysylltu ag ef yn bersonol oherwydd diffyg arian i ymweld, ac roedd hyn yn anhawster i Joanne. Wrth ddisgrifio ei sefyllfa yn y cyfarfod cyntaf, dwedodd bod ganddi iselder ac yn dal i deimlo'n isel. Roedd wedi priodi yn 2003 ac nid oedd ganddi blant.

Gydag thîm Esgyn wedi'i leoli yn y fwrdeistref fel rhan o dîm ehangach Cymunedau yn Gyntaf, roedd hynny'n caniatáu ar gyfer ymyrraeth gyflym, gan ei hatgyfeirio at Kirstie James, y Swyddog Gweithgareddau Corfforol. Cyn gadael yr ardal, bu Joanne yn mynychu dosbarthiadau ymarfer corff cylchol yn wythnosol, cyfanswm o saith o sesiynau, a gwelwyd gwelliant amlwg yn ei hyder a'i hymwneud ag eraill. Bu iddi fynd yno'n gynnar ar rai achlysuron er mwyn helpu Kirsty i baratoi.

³⁹ Newidiwyd enw'r cyfranogwyr er cyfrinachedd

Yn ogystal â'r dosbarthiadau hyn, roedd Joanna'n cwrdd yn rheolaidd â Mentor Esgyn, a oedd yn ei hannog i symud tuag at waith drwy fynychu rhai cyrsiau perthnasol, fel Gwasanaeth Cwsmeriaid Lefel 2 a Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) Lefel 2, ynghyd â chymorth i barhau i gynyddu ei hyfforddiant Sgiliau Hanfodol drwy fynychu cwrs cyflogadwyedd a gynhaliwyd gan goleg allgymorth.

Roedd hefyd gan Joanne rwystrau eraill i weithio, fel diffyg tystysgrif geni, a oedd angen arni er mwyn cael gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i gael swydd yn y sector gofal. Trefnwyd a thalwyd am hyn gan Esgyn, ynghyd ag ad-dalu ei holl gostau teithio i fynychu'r cyrsiau.

Ar ôl gweithio ar gynyddu ei hyder, gwnaed gwaith wedyn i addasu CV Joanne a rhoi ffocws newydd iddo. Yn y sesiwn hon y dechreuodd rannu bod ei gŵr yn ei cham-drin yn eiriol. Archwiliodd Mentor Esgyn a oedd y sefyllfa o dan reolaeth; teimlai Joanne ei bod ac roedd yn chwilio am ei thŷ ei hun.

Roedd pethau'n parhau i symud yn eu blaen, ac yn sgil bod â CV ag iddo ffocws newydd, aeth ati i lunio cais am swydd yn y sector gofal lleol. Dros gyfnod o ddau ddiwrnod a dwy sesiwn, bu Esgyn yn gweithio gyda Joanne i roi enghreifftiau o gymwyseddau iddi i'w rhoi yn y ffurflen gais. Roedd yn amlwg ei bod eisiau gwneud cynnydd, gan ddod i'r ail sesiwn wedi gwisgo i wneud argraff, ac yn ymwybodol y byddai'n cyflwyno ei ffurflen gais yn uniongyrchol i'r cyflogwr ar ôl y sesiwn. Yr oedd gan Fentor Esgyn gymaint o hyder yn ansawdd ymdrech Joanne fel yr aeth ati i drefnu sesiwn sgiliau cyfweiliad iddi ymlaen llaw.

- 5.11 Holwyd y cyfranogwyr hynny a oedd yn ddi-waith ba wahaniaeth fyddai cael swydd yn ei wneud i'w bywydau. Roedd yr agweddau ar welliant a nodwyd gan y cyfranogwyr yn cynnwys gwell lles meddyliol a gwell hyder, yn arbennig mewn perthynas â chael allan o'r tŷ: *'[Byddai'n] fy nghael i allan o'r tŷ ac yn fy atal rhag bod yn isel fy ysbryd, byddai'n gwneud gwahaniaeth mawr'.*

'Doeddwn i ddim yn arfer gadael y tŷ, ac rwy wir eisiau dod o hyd i waith am fy mod i'n casáu bod ar fudd-daliadau... Mae'r pryder yn dechrau effeithio ar fy mhlant ac maen nhw'n aros yn y tŷ. Rydw i eisiau dangos y ffordd iddyn nhw drwy weithio.'

5.12 Mae agweddau eraill ar welliant a nodwyd yn cynnwys effeithiau cadarnhaol ar amgylchiadau ariannol - *'[Byddai'n] gwneud gwahaniaeth mawr, rwy'n cael trafferth gyda thŷ cyngor ac fe ddaethon nhw â'r dreth ystafell wely i mewn' – yn ogystal ag ansawdd bywyd yn gyffredinol: 'Fe allwn i ddechrau gwneud pethau rwy'n eu mwynhau. Rydw i eisiau dysgu gyrru ond fedrwch chi ddim gwneud hynny heb arian'.*

5.13 Gofynnwyd i'r unigolion hyn hefyd ynglŷn â'r gwahaniaeth fyddai cael swydd yn ei wneud i fywydau'r rhai sy'n agos atynt er mwyn archwilio effeithiau goferu sy'n deillio o'r cymorth a geir gan Raglen Esgyn. Cyfeiriodd llawer at fuddion i'w plant:

'Bydd fy mhlant yn fwy balch ohonof i. Bydd modd imi wneud mwy gyda nhw yn lle dweud na allwn wneud [pethau] am fod angen inni brynu bwyd.'


'Mae fy mudd-daliadau wedi'u capio felly rydyn ni'n byw ar swm gwirion o arian i naw o bobl.'

Effeithiau Goddrychol sy'n Deillio o'r Cymorth

5.14 Gofynnwyd i'r cyfranogwyr roi sgôr i ba mor hyderus oeddynt o gael gwaith, a chadw'r swydd honno, ar adeg ymwneud â'r Rhaglen i gychwyn. Meddai 59 o ymatebwyr nad oedd ganddynt hyder o gael gwaith ar y pwynt hwnnw. Meddai ychydig yn llai (52 o ymatebwyr) fod ganddynt ddiffyg hyder yn eu gallu i 'gadw' swydd newydd (Ffigur 5.2 isod).

5.15 Ar y llaw arall, meddai'r mwyafrif (88 o ymatebwyr), o fod wedi derbyn cymorth drwy Raglen Esgyn, eu bod naill ai'n 'hyderus iawn' neu'n 'go hyderus' o gadw swydd. Meddai cyfran debyg (85 o ymatebwyr) fod ganddynt fwy o hyder ynglŷn â chael gwaith.

Ffigur 5.2: Lefelau hyder a adroddwyd o ran canfod a chadw swydd. Cymharu ymatebion cyn a hyd at chwe mis ar ôl ymwneud â Rhaglen Esgyn



Sylfaen: 105 o ymatebion (arolwg ffôn, Mehefin-Gorffennaf 2016)

- 5.16 Roedd dros hanner (61 o ymatebwyr) o'r farn bod eu rhagolygon gwaith yn well ers ymgofrestru gydag Esgyn. O'r gweddill, meddai 14 o ymatebwyr ei bod yn rhy gynnar i allu dweud ac ni roddwyd ateb penodol gan bump.
- 5.17 Gofynnwyd i'r cyfranogwyr hefyd p'un a oedd bod yn rhan o'r Rhaglen wedi newid y ffordd y maent yn teimlo am gael gwaith. Meddai 59 o ymatebwyr ei fod wedi, yn fwyaf cyffredin yn ymwneud â rhoi hwb i'w hyder (18 o ymatebwyr) neu eu gwneud yn fwy cyflogadwy o ganlyniad i'r profiad gwaith a/neu'r cymwysterau a enillwyd:

'Rwy'n credu efallai y gallaf ei wneud nawr, maen nhw wedi bod mor gyfeillgar ac maen nhw wir yn rhoi hwb i fy hyder.'

'Rwy'n aros i glywed yn ôl am y lleoliad gwaith yma o chwe wythnos gyda'r bwrdd iechyd. Petawn i'n cael hwn, mi fyddwn i wrth fy modd. Mae hyn yn newid cyfeiriad i mi, a phetawn yn ei gael byddai Esgyn wedi mynd y tu hwnt i unrhyw ddisgwyliadau oedd gen i.'

- 5.18 Cyfeiriodd y cyfranogwyr at nifer o agweddau ar y cymorth a gawsant drwy'r Rhaglen a oedd yn fwyaf buddiol iddynt o ran cael gwaith. Roedd 17 o'r farn mai'r cyrsiau a fynychwyd ganddynt oedd y mwyaf buddiol, a'r nesaf oedd cymorth ysgogol y broceriaid eu hunain; yr hyder a ddatblygwyd drwy gydol y rhaglen; y cymorth a gawsant gyda'u CV; ac yn olaf y lleoliadau gwaith a gawsant.

Mathau Eraill o Gymorth

5.19 Holwyd y cyfranogwyr a oeddynt wedi derbyn unrhyw gymorth yn y gorffennol i gyrraedd eu nodau cyflogadwyedd drwy ffynonellau eraill ar wahân i Esgyn. Cafwyd cadarnhad gan 36 o'r 105 o gyfranogwyr eu bod wedi derbyn cymorth yn flaenorol, ac o'r rhai a oedd, meddai mwy na thri chwarter ohonynt (28/36) fod yn well ganddynt y cymorth a gawsant gan Esgyn.

5.20 Roedd yn amlwg hefyd bod yn well ganddynt ddull anffurfiol y Mentoriaid.

'[Maen nhw'n] fwy tebyg i ni fel pobl, ar ein lefel ni a'u traed ar y ddaear, fel siarad gyda ffrind. Maen nhw'n ymwneud â'r gymuned hefyd, nid yn ffroenuchel.'

'[Mae'r Mentor] yn siarad mewn termau llewg; mae'n esbonio popeth wrthyf i.'

5.21 Roedd yr ymatebion hefyd yn canolbwyntio ar ansawdd y cyfathrebu a faint o gyfathrebu a gafwyd:

'Bu'r [Mentor] yn dda iawn. Rhoddodd lawer o gyfleoedd imi, mae'n cadw mewn cyswllt ac yn fy ngwthio i. Maen gefnogol iawn heb fod uwch fy mhen i drwy'r adeg.'

'Mae Esgyn 10 gwaith yn well [na Rhaglenni eraill]; maen nhw'n gwrandio arnoch chi ac yn eistedd gyda chi i'ch helpu chi.'

'Mae eu cymorth ar gyfer yr unigolyn.'

5.22 Pwysig yw nodi nad oedd mwyafrif yr ymatebwyr wedi derbyn cymorth yn flaenorol, a allai awgrymu bod Esgyn yn ymgysylltu ag unigolion sy'n anoddach eu cyrraedd. Fel a ddwedwyd yn gynharach, ar lafar y daeth 14 y cant o'r rhai y cysylltwyd a hwy yn ymwybodol o Esgyn gyntaf, fel arfer drwy ffrind neu berthynas a oedd wedi ymwneud â'r Rhaglen eu hunain.

'Roeddwn wedi colli fy swydd, ac wedi cael swydd arall ond roedd gen i anaf i fy mhen-glin felly roeddwn i'n ddi-waith unwaith eto a dyma fy nghymydog yn sôn wrthyf amdanyn nhw.'

'Mi gollais fy swydd ac roeddwn wedi bod yn ddi-waith am ryw chwe mis. Roedd fy hyder a fy ysgogiad yn lleihau. Fy mam ddwedodd wrthyf i am Esgyn.'

6. Casgliadau

- 6.1 Mae Rhaglen Esgyn yn targedu cyfres o ardaloedd lleol sydd ag amrywiaeth eang o nodweddion. Yn sgil hyn, dyluniwyd model cyflenwi'r Rhaglen â llawer o hyblygrwydd ac mae hyn wedi galluogi iddo addasu i amgylchiadau lleol a chadw'r dull o ganolbwyntio ar yr unigolyn.

Sail Resymegol

- 6.2 Mae trechu tlodi yn parhau i fod yn un o flaenoriaethau pennaf Llywodraeth Cymru ac o ystyried y dystiolaeth sylweddol sy'n dangos cyswllt rhwng bod heb waith a thlodi, y mae digonedd o gyfiawnhad dros ymyrraeth polisi o'r natur hon. Er bod perthynas amlwg rhwng diweithdra a thlodi, y mae tystiolaeth gynyddol hefyd o dlodi mewn gwaith. Mae pwyslais y Rhaglen ar gyfleoedd a frocerwyd yn genedlaethol, yr ystyrir eu bod yn cynnig cyfleoedd gyrfa cryf, yn dangos bod Esgyn, yn rhannol o leiaf, yn ceisio mynd i'r afael â'r her economaidd-gymdeithasol hon sy'n gynyddol amlwg.

Adnoddau

- 6.3 Mae Esgyn yn gweithredu ar gyllideb gyfyngedig. Yn y mwyafrif helaeth o ardaloedd cyflenwi, gwnaeth y Rhaglen ddefnydd effeithiol o'r llwyfan a gynigir gan Gymunedau yn Gyntaf. Roedd model y rhaglen yn rhagweld y byddai'n dibynnu ar y Clystyrau ar gyfer hyrwyddo, atgyfeirio ac ymgysylltu, a chaiff hyn ei adlewyrchu yn yr ardaloedd cyflenwi i raddau amrywiol.
- 6.4 Yn sgil yr adnoddau cyfyngedig, mae'r staff a ddyrannwyd i'r Rhaglen yn bennaf yn adlewyrchu'r dyraniadau a awgrymwyd yn y cynllun busnes (sef dau Fentor/Brocer i bob Clwstwr), gyda staff ychwanegol i'w gweld yn unig pan fo'r ardal gyflenwi wedi'i hehangu, neu pan fo Clwstwr yn arbennig o fawr. Mae'r lefel hon o adnoddau i Raglen sy'n darparu cymorth dwys yn ymddangos yn ddigonol, er i'r cyflogwyr ddweud y byddent yn gwerthfawrogi lefel uwch o gymorth. Ymhellach, mae'r lefel hon o staffio yn golygu lefel uwch o risg o ran absenoldeb staff. Gall colli un aelod o staff danseilio'r gwaith o gyflenwi'r Rhaglen yn sylweddol.

Cyfleoedd wedi'u Broceru

- 6.5 Pwysleisiai'r cynllun busnes bwysigrwydd cyfleoedd a frocerwyd yn genedlaethol. Mae eu nifer, eu hystod (o ran nifer y sefydliadau sy'n darparu cyfleoedd) a'u perthnasedd i gyfranogwyr Esgyn wedi cynyddu wrth i'r Rhaglen fynd rhagddi. Yn

ôl y Mentoriaid, canfyddiad y cyfranogwyr o gyfleoedd cenedlaethol yw eu bod yn swyddi sydd â rhagolygon cyflogaeth/gyrfa cryf, sy'n ychwanegu at eu gwerth canfyddiedig. Ond y mae dosbarthiad y cyfleoedd gwaith yn bell o fod yn unffurf: tra bod dwy ardal gyflenwi yn llawn o gyfleoedd a frocerwyd yn genedlaethol, prin, os o gwbl, yw cyfleoedd felly mewn nifer o ardaloedd. Bydd cyfnod nesaf y gwerthusiad yn archwilio a oes perthynas rhwng nifer y cyfleoedd a frocerwyd yn genedlaethol sydd mewn ardal gyflenwi a chyflawni canlyniadau'r Rhaglen.

Gweithgareddau

Ymgysylltu/Atgyfeirio

- 6.6 Fel a nodwyd yn wreiddiol, mae dyluniad Esgyn yn dibynnu'n helaeth ar atgyfeiriadau gan sefydliadau eraill. Mae perthnasoedd gydag asiantaethau atgyfeirio allweddol fel Canolfannau Gwaith Lleol wedi cryfhau wrth i'r Rhaglen fynd rhagddi. Er hynny, mae ansawdd yr atgyfeiriadau yn dibynnu ar berthnasoedd unigol, sy'n amrywio'n fawr o un Ganolfan Waith i'r llall, yn ogystal ag o un Hyfforddwr Gwaith i'r llall. Mae o ba sefydliad/rhaglen y deillia atgyfeiriadau eraill i'r Rhaglen yn amrywio'n fawr rhwng yr ardaloedd cyflenwi.
- 6.7 Ffactor arall sydd o gymorth i ymgysylltu ac atgyfeirio yw'r ffaith bod Esgyn yn seiliedig yn y gymuned. Mae ardaloedd cyflenwi lle mae'r cyfleusterau yn seiliedig mewn lleoliadau amlwg sydd â nifer o bobl yn cerdded heibio, yn elwa fwyaf o gyswllt ad hoc wrth i rai gerdded i mewn neu gyfeirio eu hunain.

Ymddiriedaeth

- 6.8 Ystyrir bod meithrin ymddiriedaeth yn hanfodol i lwyddiant y Rhaglen ac mae pob Mentor yn sicrhau bod hynny'n flaenoriaeth wrth greu cyswllt cychwynnol â chyfranogwyr. Bu'r cysylltiad â'r Clwstwr, y diffyg cysylltiad â darpariaeth gwasanaeth brif ffrwd, a natur wirfoddol y ymgysylltu oll o gymorth yn hyn o beth.
- 6.9 Mae'r dull o fynd ati i ddatblygu ymddiriedaeth hefyd yn gyson iawn â'r arfer o ddefnyddio dull o ganolbwyntio ar yr unigolyn. O safbwynt cyfranogwr, y mae'n eglur iawn y caiff hyn ei werthfawrogi, ac felly hefyd allu'r Mentoriaid i ymwneud â hwy mewn ffordd anffurfiol.

Cynlluniau Gweithredu

- 6.10 Mewn rhai ardaloedd, mae cynlluniau gweithredu yn elfen ganolog o fodel cyflenwi Esgyn; mewn ardaloedd eraill, y mae'n elfen sy'n fwy ymylol. Teimlai rhai Mentoriaid ei fod yn rhoi pwysau gormodol ar gyfranogwyr, a theimlai eraill ei fod yn hanfodol er mwyn nodi nodau.
- 6.11 Drwy ddadansoddi'r data monitro, gwelir bod amrywiaeth sylweddol ym mhellter cyfranogwyr Esgyn o'r farchnad lafur a gallai hyn fod wedi dylanwadu ar y pwyslais a roddir ar gynlluniau gweithredu yn y model cyflenwi.

Cyfleoedd Hyfforddiant a Gwaith

- 6.12 Fel a ragwelwyd yn y cynllun busnes, mae'n aml ar gyfranogwyr Rhaglen Esgyn angen cymorth am 12 mis neu fwy er mwyn eu helpu i symud ymlaen tuag at weithio. Caiff y cyfranogwyr hyn eu cyfyngu'n aml gan rwystrau lluosog i gael gwaith. Mae integreiddio â darpariaethau lleol eraill yn galluogi'r Mentoriaid i froceru ar gyfer elfennau ehangach eraill o gymorth os oes blaenoriaethau/rhwysterau uniongyrchol y mae angen mynd i'r afael â hwy cyn y bydd modd archwilio cyfleoedd gwaith, hyfforddiant neu wirfoddoli.
- 6.13 Unwaith y mae cyfranogwyr mewn sefyllfa i symud ymlaen tuag at waith, sefydlodd yr ardaloedd cyflenwi lwybrau addas at gyflogaeth a hyfforddiant. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd cyflenwi, dwedir nad yw'r cyflogwyr lleol yn ymwybodol eu bod yn recriwtio cyfranogwyr Esgyn am eu bod fel arfer yn cael eu dethol drwy'r farchnad agored. Yn yr ardaloedd eraill, mae cyflogwyr lleol yn gyffredinol yn cynnig cyfleoedd lleoliad gwaith lle y gallai'r cyfranogwyr symud ymlaen at swyddi parhaol gyda'r cyflogwyr hynny.
- 6.14 Ardaloedd sydd wedi'u hynysu mwy yn ddaearyddol, neu sydd â chyfyngiadau o ran hygrychedd, sydd fwyaf tebygol o gyfeirio at heriau wrth nodi cyfleoedd addas i'w cyfranogwyr.
- 6.15 Rhoddir gwerth uchel i gyfleoedd a frocerwyd yn genedlaethol yn y lleoliadau hynny lle y maent yn chwarae rôl sylweddol a dwedir eu bod yn destun cenfigen ymysg Rhaglenni eraill. Ond y maent yn dueddol o fod yn fwyaf amlwg yn y lleoliadau mwyaf hygrych lle y byddai, yn baradocsaid, ragor o gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth ar gael yn lleol. Mae hyn yn arwain at sefyllfa lle y teimla rai ardaloedd fod ganddynt ormodedd o gyfleoedd, gyda phryder yn gysylltiedig â hynny y bydd llawer heb eu llenwi, ac ardaloedd eraill yn wynebu heriau wrth nodi nifer ddigonol o gyfleoedd addas i'r cyfranogwyr.

- 6.16 Mae'r holl Fentoriaid yn gwerthfawrogi'r Gronfa Rwystrau yn fawr, ac mae'r ffaith ei bod yn hyblyg ac yn hawdd manteisio arni yn arbennig o bwysig. Golygai hyn y datblygodd y Gronfa Rwystrau i fod yn offeryn ymatebol iawn a all ymateb i rwystrau wrth iddynt godi. Cafwyd cydnabyddiaeth ehangach o'i heffeithiolrwydd, i'r graddau ei bod yn dioddef yn sgil ei llwyddiant ei hun, wrth i ddarpariaethau eraill fod mor barod i atgyfeirio at y cynnig fel ffordd symlach o gael cymorth na'u darpariaeth eu hunain.

Integreiddio Gweithgareddau

- 6.17 Yn y mwyafrif o ardaloedd, mae Rhaglen Esgyn wedi cydweddu'n dda â'r ddarpariaeth bresennol. Mynegwyd pryderon ymysg staff cyflenwi yn sgil cyflwyno Cymunedau am Waith, er bod y pryderon yn dechrau lleihau wrth i'r gwaith o gyflenwi Cymunedau am Waith fynd rhagddo. Yn ôl tystiolaeth anecdotaidd, mae nifer yr atgyfeiriadau yn yr ardaloedd cyflenwi wedi cynyddu ers lansio'r Rhaglen, a gallai hynny fod yn adlewyrchu eu bod yn cydweddu'n agos a bod eglurder (gyda chymorth Swyddogion Brysbennu) rhwng y ddwy strategaeth ymyrraeth.

Cymorth Ar Ôl Cael Gwaith

- 6.18 Yn bresennol, nid yw'r cymorth i gyfranogwyr wedi iddynt gael lleoliad gwaith a/neu swydd wedi'i ddiffinio, yn rhannol oherwydd yr heriau o ymgysylltu â chyfranogwyr unwaith eu bod mewn swydd. Cymysg oedd adborth y cyflogwyr yn y gwaith ymchwil. Mae'n awgrymu, unwaith y mae canlyniad addas wedi'i sicrhau, mai cyfyngedig yw gallu'r Mentoriaid i gynorthwyo cyfranogwyr (a/neu gyflogwyr) i gynnal eu swydd. Gallai hyn hefyd fod yn adlewyrchu cyfyngiadau yn ymwneud â chapasiti, ac mae hyn yn galw am archwilio pellach dros gyfnod nesaf y gwaith ymchwil.

Safbwyntiau Cyfranogwyr

- 6.19 Ar y cyfan, mae'r cyfranogwyr yn gadarnhaol ynglŷn â'r cymorth a gawsant drwy'r Rhaglen. Bu cyfran uchel yn ddi-waith yn y tymor hir neu heb fod wedi gweithio erioed, ac ychydig ohonynt a fu'n ymwneud â mentrau blaenorol i'w cynorthwyo i gael gwaith. Awgryma hyn fod Esgyn yn effeithiol wrth greu cyswllt â'r rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur. Yn achos y cyfranogwyr hynny a fu'n rhan o raglenni cyflogaeth eraill, meddai mwy na thri chwarter y cyfranogwyr a holwyd (gweler tt. 18-19) fod yn well ganddynt y dull a ddefnyddir yn Esgyn. Yng nghyfnod nesaf yr ymchwil, bydd yn bwysig dadansoddi i ba raddau y caiff y canfyddiad o werth Rhaglen Esgyn ei adlewyrchu mewn canlyniadau cyflogaeth barhaus.

Cyfeirnodau

Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth (2014) *Disability Level by Economic Activity*,

<http://www.nomisweb.co.uk>, darllenwyd ar 27^{ain} Awst 2015

Belfield, C. et al. (2016) *Living standards, poverty and inequality 2016*, Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid

Blackaby et al. (2003) *Identifying Barriers to Economic Activity in Wales*, Adroddiad i'r Uned Ymchwil Economaidd, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003

<http://www.learningobservatory.com/uploads/publications/1179.pdf>

Crynodeb o Gymunedau am Waith: <http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/communities-for-work/?lang=cy>,

darllenwyd ar 19^{eg} Medi 2016

Crowther et al. (2000) 'Helping people with severe mental illness to obtain work: systematic review', BMJ <http://www.bmj.com/content/322/7280/204>

Crynodeb o Ddechrau'n Deg: <http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/parenting-support-guidance/help/flyingstart/?lang=cy>, darllenwyd ar 19^{eg} Medi 2016

Kidd, J.M. (1996). The career counselling interview. In Watts et al, *Rethinking Careers Education and Guidance: Theory, Policy and Practice*. Llundain: Routledge, tt 189-209

ONS (2014) *Families in the Labour Market*, Arolwg o'r Llafurlu; Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

ONS (2016) *Setiau Data Aelwydydd yn cwmpasu Ebrill i Fehefin 2016* (Dyddiad rhyddhau: 1^{af} Medi 2016)

Pantazis, C. et al. (2006) *Poverty and Social Exclusion in Britain: The Millennium Survey*

StatsCymru (2012), *Dangosyddion Allweddol yn ôl Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf*, yn deillio o

Fynegrif Amddifadedd Lluosog Cymru (2012), <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Communities-First/KeyIndicators-by-CommunitiesFirstCluster>

Llywodraeth Cymru (2013) *Employment related benefits as a proxy for worklessness – heb ei gyhoeddi*

Llywodraeth Cymru (2013) *Ystadegau'r Farchnad Lafur ar gyfer Aelwydydd, 2012 – Bwletin Ystadegol*, 4^{ydd} Medi 2013

Llywodraeth Cymru (2013) *Tackling Workless Households Programme – Brief*, heb ei gyhoeddi

Atodiad 1: Rhaglen Esgyn – Theori Newid



Atodiad 2: Offer Ymchwil

Ymweliad Safle – Adolygiad o'r Broses gyda Broceriaid a/neu Staff Cyflenwi eraill Rhaglen Esgyn

Trosolwg o Fodel Cyflenwi Esgyn

1. Soniwch wrthyf am y dull o gyflenwi Rhaglen Esgyn yn eich ardal chi
 - a. **Ymgysylltu â Chyfranogwyr**
 - i. Llwybrau allweddol i nodi cyfranogwyr yn uniongyrchol ac ymgysylltu â hwy
 - ii. Llwybrau atgyfeirio – pa sefydliadau sy'n atgyfeirio i Esgyn, pa rôl mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn chwarae yn y prosesau hynny a pha mor effeithiol yw pob un i'r prosesau atgyfeirio?
 - iii. Ymgysylltu'n wirfoddol – manteision ac anfanteision hynny
 - b. **Meithrin Ymddiriedaeth** – Dulliau a ddefnyddiwyd ar ôl dod i gyswllt cychwynnol i feithrin ymddiriedaeth/perthynas â'r cyfranogwyr
 - c. **Cynllun Gweithredu** – Yn benodol, nodi'r rhwystrau i gael gwaith, amserlen proses y cynllun gweithredu, y dull o lunio cynllun gweithredu, pa mor ddefnyddiol yw'r dull a rôl y cynllun gweithredu drwy gydol y cyfnod o gyswllt
 - d. **Meithrin Sgiliau Cyflogaeth** – Sut caiff cyfleoedd eu nodi, sut y manteisir arnynt, a sut y cânt eu monitro
 - e. **Symud Ymlaen at Swydd Barhaus** – Yn cynnwys pa gymorth a gynigir ar ôl cael gwaith

I Ba Raddau mae Esgyn yn Cydweddu

2. Sut mae'r gwaith o gyflenwi Esgyn ar hyn o bryd yn gweithio ochr yn ochr â Chymunedau yn Gyntaf yn eich clwstwr chi?
 - a. A oes manteision/anfanteision i gyflenwi Cymunedau yn Gyntaf yn eich ardal?
3. Sut mae Esgyn yn gweithio ar hyn o bryd ochr yn ochr â mentrau eraill yn eich clwstwr? Cymunedau am Waith yn benodol?
 - a. Pa fanteision y mae Cymunedau am Waith yn eu cyflwyno i'r gwaith o gyflenwi Rhaglen Esgyn yn eich ardal chi?
 - b. Pa anfanteision y mae Cymunedau am Waith yn eu cyflwyno i'r gwaith o gyflenwi Rhaglen Esgyn yn eich ardal chi?
4. I ba raddau, os o gwbl, yr ydych yn gysylltiedig â chynlluniau eraill ar wahân i Gymunedau yn Gyntaf a Chymunedau am Waith?
 - a. A yw'n bwysig gwneud hynny?

5. A ydych yn cael llawer o ymholiadau am gymorth gan y rhai sy'n byw y tu allan i ardal Cymunedau yn Gyntaf?

Elfennau Cyflenwi Allweddol

6. Ar gyfartaledd, pa mor aml fyddwch chi'n cwrdd â chyfranogwr?
 - a. Pa ffactorau sy'n dylanwadu ar ba mor aml yr ydych yn cwrdd?
7. Pa fath o heriau mae cyfranogwyr yn wynebu wrth ymwneud â Rhaglen Esgyn?
 - a. Pa heriau'r ydych *chi* yn wynebu wrth ymwneud â chyfranogwyr?
 - b. Pa heriau mae *Rhaglen Esgyn* yn wynebu wrth ymwneud â chyfranogwyr?
8. Hefyd, beth yw'r heriau nodweddiadol a wynebwch wrth nodi a chynnig cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth i gyfranogwyr Esgyn?

Nodi hyfforddiant a chyflogaeth	
Cynnig hyfforddiant a chyflogaeth	

9. Pa rôl (os o gwbl) y mae'r Gronfa Rwystrau yn ei darparu er mwyn goresgyn heriau/rhwystrau i gyfranogwyr?
 - a. Pa mor ddefnyddiol yw'r gronfa hon? A ellid ei gwella o gwbl?

Cyfleoedd Hyfforddiant a Chyflogaeth

10. Sut ydych yn sicrhau bod:
 - a. Niferoedd digonol o gyfleoedd i'r cyfranogwyr yr ydych yn ymwneud â hwy?
 - b. Cyfleoedd addas i'r cyfranogwyr yr ydych yn ymwneud â hwy?
11. Sut ydych yn 'paru' cyfleoedd a chyfranogwyr?
 - a. A oes unrhyw gyfleoedd sy'n arbennig o boblogaidd?
 - b. A oes unrhyw gyfleoedd sy'n arbennig o amhoblogaidd?
 - c. A oes unrhyw fylchau yn y math o gyfleoedd sydd gennych ar gael i'w cynnig?

12. Pa sefydliadau neu ddarparwyr gwasanaeth eraill yr ydych yn gweithio gyda hwy?
- Pa gyfleoedd gwahanol y maent hwy yn cynnig i gyfranogwyr Esgyn?
 - Sut, os o gwbl, y maent yn gwella'r cymorth sydd ar gael?
13. I ba raddau y teimlwch fod gennych amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd ar gael i gyfranogwyr?
- A oes unrhyw gyflogwyr neu ddarparwyr hyfforddiant allweddol yn lleol na fu modd ichi ymwneud â hwy?
14. Tua pha gyfran o gyfleoedd y manteisir arnynt gan gyfranogwyr sy'n gyfleoedd a gynigir gan Adrannau Llywodraeth Cymru, GIG Cymru neu Gymdeithasau Tai Lleol?

Myfyrion

15. Pa elfennau o fodel Esgyn yr ystyriwch eu bod yn hanfodol i'w lwyddiant wrth gynorthwyo'r grŵp hwn o unigolion? Pam y credwch mai dyma'r achos?
- A allwch ddarparu rai enghreifftiau o unigolion y mae Rhaglen Esgyn wedi gweithio gyda hwy a gafodd ganlyniadau llwyddiannus?
16. A oes unrhyw elfennau o fodel Esgyn y gellid eu gwella?
- Beth ydynt, ac ym mha ffordd y gellid eu gwella?

Monitro a Gwerthuso

17. Dangoswch imi a soniwch am y wybodaeth fonitro a gasglwch ar gyfer cyfranogwr Esgyn arferol o'r cam ymgysylltu hyd at y canlyniadau.

(Cyfwelydd)

- *Gofynnwch i weld y cronfeydd data, ffeiliau achos ac ati.*
- *Pa wybodaeth sy'n cael ei chasglu?*
- *Pa mor aml y caiff y wybodaeth ei diweddarau?*
- *Sut maent yn dilyn trywydd ar ôl i rywun gael gwaith?*
- *Pa gymorth sy'n cael ei ddarparu ar ôl i rywun gael gwaith?*

18. Rhan allweddol o'r gwerthusiad yw mesur yr effaith a gaiff y prosiect ar gyfranogwyr Esgyn.

- a. Yn eich barn chi, sut mae/bydd cyfranogwyr yn elwa o'r cymorth a gânt gan Raglen Esgyn y tu hwnt i ganlyniadau craidd y rhaglen?
- b. A oes unrhyw fuddion ehangach? Hynny yw, a ydych wedi sylwi ar welliannau mewn agweddau eraill ar fywyd y cyfranogwr – yn y teulu ac ati?

Strwythur Staffio

19. A allwch roi amlinelliad o'r strwythur staffio mewn perthynas â Rhaglen Esgyn yn eich ardal gyflenwi chi?

- a. Faint o staff (amser llawn neu ran amser) sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r gwaith o gyflenwi Esgyn? Beth yw eu rolau penodol? (noder bod y rhain yn ddau gwestiwn ar wahân)
- b. Pwy yw eich rheolwr llinell?
- c. Mae gwahanol fathau o strwythurau a safleoedd i dimau Esgyn ymysg yr awdurdodau lleol. Rhwch amlinelliad o'r strwythur yn eich awdurdod lleol chi. Rhwch amlinelliad o beth fyddai diwrnod nodweddiadol yn eich rôl chi.
- d. A yw eich swydd yn golygu cyflenwi unrhyw wasanaethau cymorth eraill y tu allan i Raglen Esgyn?
- e. Pa gefndir/profiad oedd gennych yn y maes hwn cyn ichi gael eich cyflogi ar Raglen Esgyn?

Ac yn olaf....

20. A oes unrhyw gwestiwn y credwch sy'n bwysig neu'n werthfawr i'r gwerthusiad hwn ei archwilio gyda chyfranogwyr?

21. Fel rhan o'r gwerthusiad, rydym yn awyddus i gysylltu â rhai sy'n darparu cyfleoedd (Asiantau Cyflenwi), yn arbennig y rhai sy'n cynnig cyfleoedd gwaith.

- a. A yw cyflogwyr lleol fel arfer yn ymwybodol eu bod yn cyflogi rhywun drwy Raglen Esgyn?
- b. A allwch roi manylion hyd at 10 o gyflogwyr lleol (ac enwau cyswllt allweddol oddi mewn i'r cyflogwyr hynny y gallem gysylltu â hwy fel rhan o'r gwerthusiad)?

22. A oes gennych unrhyw beth i'w ychwanegu, neu a hoffech godi unrhyw fater nad ydym wedi'i drafod?

Arolwg y Cyfranogwyr

Cyflwyniad

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Wavehill gynnal gwerthusiad o Raglen Esgyn sy'n cael ei ariannu ganddi.

Rydym yn deall eich bod chi, dros yr ychydig fisoedd diwethaf, wedi cael cymorth gan <xxxx/xxxx> (enw Mentor/Hyfforddwr) o <xxx> (Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf). Byddem yn ddiolchgar pe gallech gymryd rhan mewn arolwg ffôn 10 munud o hyd i sôn wrthym am eich profiadau cychwynnol o'r cymorth, gan fod eich barn chi yn bwysig iawn i helpu Llywodraeth Cymru i ddeall pa mor effeithiol yw Rhaglen Esgyn.

Carwn roi sicrwydd ichi y caiff unrhyw farn a rowch ei chadw'n gwbl gyfrinachol. O'ch gwirfodd y byddwch yn cymryd rhan yn yr arolwg, a gallwch ddod â'r cyfweiliad i ben ar unrhyw adeg heb unrhyw ganlyniadau. Ni fydd modd eich adnabod yn unigol o'ch barn yn yr adroddiadau na'r data a gaiff eu darparu i Lywodraeth Cymru.

Cwestiynau Allweddol i'w Trafod gyda Chyfranogwyr Esgyn

1. Hoffem wybod ychydig amdanoch chi a sut y daethoch i gael eich cynorthwyo gan Raglen Esgyn:
 - a. Yn benodol, sut ddaethoch chi'n ymwybodol o'r rhaglen?
 - b. Tua phryd y daethoch i gyswllt â'r rhaglen gyntaf?
2. Pan ddechreuoch ymwneud â Rhaglen Esgyn gyntaf, beth oeddech chi'n gobeithio ei gael ohoni?
3. A allwch roi trosolwg o'r math o gymorth a chyngor a gawsoch?
 - a. Gan eich mentor/brocer (**Nodyn i'r cyfwelydd:** cyfeiriwch at enwau cyflogaion Esgyn os oes angen er mwyn helpu'r cyfranogwr)
 - b. Drwy'r cyfleoedd a buoch yn rhan ohonynt

4. Beth yw eich sefyllfa bresennol? (ticiwch bob un sy'n berthnasol)

- a. Gweithio amser llawn
- b. Gweithio rhan amser
- c. Hunangyflogedig
- d. Mewn hyfforddiant/addysg
- e. Gwirfoddoli
- f. Profiad gwaith
- g. Di-waith – Chwilio am waith
- h. Di-waith – Salwch hirdymor
- i. Rhiant sy'n aros gartref
- j. Arall

5. Ar raddfa o 0-10, dwedwch wrthym ba mor agos neu bell yr oeddech yn bersonol yn teimlo'r oeddech o allu dod o hyd i swydd cyn ichi ddechrau derbyn cymorth drwy Raglen Esgyn?

(0 heb fod yn agos o gwbl a 10 yn barod i weithio)

- a. Gan feddwl yn ôl i ban ddaethoch i gyswllt gyntaf â Rhaglen Esgyn, pa mor hyderus oeddech yn teimlo:

	Hyderus iawn	Go hyderus	Heb fod yn hyderus iawn	Heb fod yn hyderus o gwbl
Dod o hyd i swydd				
Cadw'r swydd honno				

6. Ar raddfa o 0-10, dwedwch wrthym ba mor agos neu bell a deimlwch yn bersonol yr oeddech o allu dod o hyd i swydd cyn ichi ddechrau derbyn cymorth drwy Raglen Esgyn?

(0 heb fod yn agos o gwbl a 10 yn barod i weithio)

- a. A chithau wedi derbyn cymorth drwy Raglen Esgyn, pa mor hyderus y teimlwch erbyn hyn mewn perthynas â:

	Hyderus iawn	Go hyderus	Heb fod yn hyderus iawn	Heb fod yn hyderus o gwbl
Dod o hyd i swydd				
Cadw'r swydd honno				

7. (I'w ofyn i'r rhai sydd yn ddi-waith yn unig) Beth sydd angen ichi ei wneud o hyd er mwyn cyrraedd y cam hwnnw (o gael swydd a'i chadw)?
- a. A oes unrhyw rwystrau penodol y teimlwch sydd angen ichi eu goresgyn er mwyn cyrraedd y cam hwnnw?
8. (I'w ofyn i'r rhai sydd yn ddi-waith yn unig) Pa wahaniaeth fyddai cael swydd yn ei wneud i'ch bywyd?
- a. A bywydau'r rhai sy'n agos atoch?
9. Beth ydych chi'n teimlo yw'r prif fanteision i chi o gymryd rhan yn Rhaglen Esgyn?
10. A yw cymryd rhan yn Rhaglen Esgyn wedi newid sut rydych yn teimlo am addysg neu hyfforddiant mewn unrhyw ffordd (ydy/nac ydy)
- a. (Os ydy) – ym mha ffyrdd
- b. (Os na) – esboniwch pam

11. A yw cymryd rhan yn Rhaglen Esgyn wedi newid sut rydych yn teimlo am gael swydd?

- a. (Os ydy) – ym mha ffyrdd
- b. (Os na) – esboniwch pam

12. A ydych cyn credu bod eich rhagolygon gwaith yn well yn awr / ers ichi gychwyn gydag Esgyn?

- a. A yw hynny o ganlyniad i'r cymorth a gawsoch?

13. A oes unrhyw fath o gymorth sydd ei angen arnoch nad yw ar gael drwy Esgyn?

14. Gan feddwl yn ôl i'r cymorth a gawsoch gan y rhaglen hyd yma, pa agwedd y credwch a fu fwyaf o gymorth o ran cael gwaith?

15. A ydych yn gallu cofio derbyn unrhyw gymorth i'ch helpu i gael gwaith yn y gorffennol? Ydw / Nac ydw / Ddim yn gwybod

15b. (Os ydw) A allwch gofio enwau'r cwmnïau a roddodd y cymorth hwn?

15c. (Os ydw yn 15) A allwch ddweud wrthym sut mae Rhaglen Esgyn yn cymharu â'r rhaglenni eraill?

Llawer gwell na'r rhaglenni eraill	Ychydig yn well na'r rhaglenni eraill	Tua'r un peth â'r rhaglenni eraill	Ychydig yn waeth na'r rhaglenni eraill	Llawer yn waeth na'r rhaglenni eraill
------------------------------------	---------------------------------------	------------------------------------	--	---------------------------------------

15d. A allwch ddweud pam wrthym?

--

15e. Agorwch y bocs i nodi unrhyw sylwadau pellach ar gyfer C15

--

16. Dwedwch wrthym a ydych yn:

Byw ar eich pen eich hun (ymlaen i'r nesaf)	
Byw gyda rhieni (ymlaen i b)	
Byw gyda phartner neu fel rhan o deulu	
Arall, nodwch beth	

- a. A yw eich aelwyd yn cynnwys unrhyw un, ar wahân i chi'ch hun, sydd dros 16 oed?
- b. A oes unrhyw un arall yn eich aelwyd yn derbyn cymorth gan Raglen Esgyn?

Elfen Hydredol: Cyfweiliadau ffôn yn unig

Mae'r cwestiynau canlynol yn rhestr o osodiadau ynglŷn â sut rydych yn ymateb i amrywiaeth o sefyllfaoedd. Dwedwch wrthyf i ba raddau'r ydych yn cytuno gyda phob eitem gan ddefnyddio'r raddfa hon:

1 = ddim yn wir o gwbl 2 = braidd yn wir 3 = cymharol wir 4 = yn gwbl wir

Caiff pob un o'r 20 o gwestiynau eu cyflwyno ar hap

Graddfa Hunan-ffeithiolrwydd Cyffredinol:

1. Gallaf bob amser ddatrys problemau anodd os ydw i'n trio yn ddigon caled.
2. Os yw rhywun yn fy ngwrthwynebu, gallaf ddod o hyd i ffordd i gael yr hyn rwy eisiau.
3. Mae'n hawdd imi lynu wrth fy nodau a chyflawni fy nodau.
4. Rwy'n hyderus y gallwn ymdrin yn effeithiol â digwyddiadau annisgwyl.
5. Diolch i fy nyfeisgarwch, rwy'n gwybod sut i ymdrin â sefyllfaoedd nad oedd modd eu rhagweld.
6. Gallaf ddatrys y rhan fwyaf o broblemau os ydw i'n buddsoddi'r ymdrech sydd ei hangen.
7. Gallaf aros yn ddi-gynnwrf wrth wynebu anawsterau oherwydd gallaf ddibynnu ar fy ngallu i ymdopi.
8. Pan rwy'n wynebu problem, gallaf ddod o hyd i atebion fel arfer.
9. Os ydw i mewn trwbl, gallaf feddwl am ateb fel arfer.
10. Fel arfer, gallaf ymdrin â beth bynnag a ddaw i'm rhan.

Graddfa Hunan-ffeithiolrwydd ar gyfer Dysgu:

11. Mae dysgu sgiliau newydd yn ddiddorol imi.
12. Pan welaf fod angen imi, gallaf ddatblygu sgiliau newydd.
13. Rwy'n elwa llawer o ddysgu.
14. Rwy'n gweld mynd ar gwrs hyfforddiant yn beth syml.
15. Rwy'n dueddol o gofio'r pethau a gaiff eu dysgu mewn hyfforddiant.

Agweddau at Gyflogaeth:

16. Gallwn gael swydd petawn eisiau un.
17. Gall gwaith roi boddhad.
18. Mae swydd allan yno i mi.
19. Os na allaf gael un swydd, fel gaf swydd arall.
20. Gallaf gyrraedd fy nodau o ran gwaith.

Cwestiynau Lles yr ONS:

21. Mae'r cwestiynau canlynol yn ymwneud â'ch teimladau presennol. Atebwch bob un ar raddfa o 0-10, lle mae 0 yn golygu heb fod yn fodlon o gwbl a 10 yn golygu yn gwbl fodlon:

- a. Yn gyffredinol, pa mor fodlon ydych yn teimlo â'ch bywyd y dyddiau hyn?
- b. Yn gyffredinol, i ba raddau'r ydych yn teimlo bod y pethau a wnewch yn fuddiol?
- c. Yn gyffredinol, pa mor hapus oeddech yn teimlo ddoe?
- d. Yn gyffredinol, pa mor bryderus oeddech yn teimlo ddoe?

Cyfweliadau â Sefydliadau sy'n Ymwneud â Darparu Cyfleoedd i Gyfranogwyr Esgyn

Cefndir

23. A allwch roi amlinelliad byr o'r hyn mae eich sefydliad yn gwneud a beth yw eich rôl yn y sefydliad?

Ymwybyddiaeth

24. A allwch gofio sut y daethoch yn ymwybodol o'r rhaglen (a chan bwy)?

25. Am ba resymau y penderfynoch ymwneud â Rhaglen Esgyn?

Natur eich rôl

26. Pa fathau o gyfleoedd a gynigwyd gennych i Gyfranogwyr Esgyn? (Rhowch frasmcan o'r nifer os ydych wedi cynnig nifer o fathau o gyfleoedd)

27. Sut cafodd cyfranogwyr Esgyn wedyn eu recriwtio i'r cyfleoedd hynny? (A ddefnyddioch ryw fath o broses ddethol, er enghraifft?)

28. A yw'r cyfleoedd y manteisiwyd arnynt gan gyfranogwyr Esgyn yn:

- a. Gyfleoedd "newydd" (ychwanegol) a grewyd mewn ymateb i Raglen Esgyn
- b. Cyfleoedd a oedd yn bodoli eisoes a allai fod wedi mynd allan i'r farchnad agored sydd yn lle hynny wedi'u targedu at gyfranogwyr Esgyn
- c. Cymysgedd o'r uchod (os felly, tua pha ganran sy'n newydd)

29. Cyn i gyfranogwyr Esgyn fanteisio ar y cyfleoedd, pa gyswllt (os o gwbl) oedd gennych â Mentor/Brocer Esgyn?

- a. Pa mor ddefnyddiol oedd hyn?
- b. A allai natur y cyswllt â'r Brocer/Mentor gael ei gwella o gwbl?

Profiad o Gyfranogwyr Esgyn

30. Pa fath o brofiad a gawsoch o Gyfranogwyr Esgyn?

- a. A fu'r cyfranogwyr yn mynychu'r holl gyfarfodydd gofynnol yn rheolaidd?
- b. Sut beth oedd eu hagwedd?
- c. Sut maent wedi perfformio mewn cyfleoedd o gymharu â recriwtiwyd drwy ddulliau eraill?

Effaith Rhaglen Esgyn

31. Beth, yn eich tyb chi, yw'r effeithiau nodweddiadol a welwyd gennych ar gyfranogwyr o ganlyniad i fanteisio ar y cyfleoedd a ddarparwyd gan eich sefydliad?

32. A fyddech yn argymhell i sefydliadau eraill fel eich sefydliad chi gymryd rhan yn Rhaglen Esgyn?

- a. Pam eich bod yn dweud hynny?

33. Cyn ichi ymwneud â Rhaglen Esgyn, a oeddech fel arfer yn recriwtio unigolion:

- a. O'r ardal Gymunedau yn Gyntaf (oeddem / nac oeddem)
- b. A fu'n ddi-waith am fwy na chwe mis (oeddem / nac oeddem)

34. (Os 'nac oeddem' i un o'r uchod) Am ba resymau (os o gwbl) nad oeddech yn recriwtio / ymgysylltu ag unigolion o'r cefndir hwn?

35. A yw eich profiad o Raglen Esgyn wedi arwain at unrhyw newidiadau o ran ymarfer/dulliau recriwtio/ymgysylltu? Os ydyw, beth a sut?

36. A yw'r ffaith ichi fod yn rhan o Raglen Esgyn wedi cael unrhyw effaith arall (cadarnhaol neu negyddol) ar eich sefydliad?

Myfyrio

37. Pa elfennau o fodel Esgyn yr ystyriwch eu bod yn hanfodol i'w lwyddiant wrth gynorthwyo'r grŵp hwn o unigolion? Pam y credwch mai dyma'r achos?

38. A oes unrhyw elfennau o fodel Esgyn y gellid eu gwella?

- a. Beth ydynt, ac ym mha ffordd y gellid eu gwella?

39. A oes gennych unrhyw beth i'w ychwanegu nad ydym wedi cyfeirio ato, neu a hoffech godi unrhyw fater nad ydym wedi'i drafod?

Ymgynghoriadau â Rheolwyr y Rhaglen – Canllaw Trafod

Cyflenwi'r Rhaglen

1. Sut ydych yn teimlo mae'r rhaglen yn dod yn ei blaen?
2. Sut ydych yn meddwl mae'r rhaglen yn perfformio ar hyn o bryd yn erbyn y targedau a'r gwariant a broffiliwyd?
 - a. A ddaeth unrhyw batrymau neu dueddiadau i'r amlwg dros y 6 mis diwethaf?
 - b. A oes unrhyw feysydd o bryder?
 - c. Os oes, beth ydynt?
 - d. Beth sy'n cael ei wneud / beth gellid ei wneud i fynd i'r afael â hwy?
3. A oes unrhyw risgiau strategol neu weithredol y credwch a allai atal y rhaglen rhag bod yn llwyddiannus?
4. Bu rhywfaint o amrywiant mewn perfformiad ar draws ardaloedd cyflenwi Esgyn. Pa amrywiannau'r oeddech chi'n ymwybodol ohonynt?
 - a. A oes gennych feddyliau am yr hyn sy'n dylanwadu ar hyn / yr amrywiant/amrywiannau hyn?
5. Pa mor llwyddiannus y credwch y bu'r cyfleoedd a ddarparwyd gan adrannau Llywodraeth Cymru, GIG Cymru a'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig? A yw rhai ardaloedd wedi elwa mwy nag eraill? (Os felly, pam?)

Sut mae'r Rhaglen yn Cydweddu ac Wedi Integreiddio

6. Ers i Raglen Esgyn ddechrau, daeth nifer o fentrau eraill i'r golwg; pa mor dda'r ydych yn credu mae Rhaglen Esgyn yn cydweddu â'r gweithgareddau eraill hyn? Esboniwch eich ateb
7. I ba raddau mae timau Esgyn wedi integreiddio â thimau Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf?
 - a. Pa fanteision a nodwyd gennych o ganlyniad i integreiddio?
 - b. Pa anfanteision a nodwyd gennych o ganlyniad i integreiddio?

Myfyrio:

8. Yn eich barn chi, gan fyfyrio ar y gwaith cyflenwi hyd yma, beth yw cryfderau model Esgyn?
 - a. Ym mha ffyrdd, os o gwbl, y teimlwch y mae'n effeithiol o ran cynorthwyo aelwydydd sydd heb waith?
9. Gan fyfyrio ar berfformiad hyd yma, beth, os o gwbl, yw'r gwendidau yn nyluniad y Rhaglen?
 - a. Sut y credwch y gallai'r rhain gael eu lliniaru neu sut gellid mynd i'r afael â hwy?

Casgliadau:

10. A oes gennych unrhyw beth i'w ychwanegu, neu a hoffech godi mater nad ydym wedi'i drafod?